Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Canllawiau i'w defnyddio gan Archwilwyr Mewnol wrth gynnal eu Harchwiliad Mewnol Blynyddol o Systemau a Phrosesau Data AU

**Dyddiad:** 11 Chwefror 2026

**Cyfeirnod:** Medr/2026/06

**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch

Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a ariennir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch

Archwilwyr mewnol sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a ariennir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch

**Ymateb erbyn:** 10 Gorffennaf 2026

**Mwy o wybodaeth:** Rachael Clifford | ystadegauAU@medr.cymru


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi canllawiau i'w defnyddio gan Archwilwyr Mewnol wrth gynnal eu harchwiliad mewnol blynyddol o systemau a phrosesau data AU.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cyflwyniad**

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi canllawiau i archwilwyr mewnol sefydliadau addysg uwch (SAUau) a sefydliadau addysg bellach (SABau) a ariennir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch, a elwir drwy'r ddogfen hon yn ddarparwyr addysg uwch (DAUwyr), i'w defnyddio wrth gynnal eu harchwiliad mewnol blynyddol o'r rheolaethau mewnol sy'n gysylltiedig â'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gynhyrchu ffurflenni data addysg uwch (AU), ac yn gofyn am gopi o'r adroddiad archwilio mewnol hwn ar gyfer pob DAU. Cyfeirir at CCAUC a Medr drwy gydol y cyhoeddiad hwn, yn dibynnu a yw'r data a'r prosesau yn hanesyddol neu'n gyfredol.

2. Yn flaenorol, comisiynwyd archwiliadau allanol o ddata addysg uwch gan CCAUC, cyn i CCAUC ddod yn rhan o Medr, fel bod DAUwyr yn cael eu harchwilio'n allanol o leiaf unwaith bob pedair blynedd. 2021/22 oedd blwyddyn olaf y contract a oedd gan CCAUC gydag archwilwyr allanol i wneud hyn felly yn Medr rydym yn parhau â'r broses dros dro a ddefnyddiwyd y llynedd yn lle archwiliadau allanol nes adolygu'r broses archwilio.

3. Ar gyfer 2026, bydd y broses yn cynnwys cyfarfod rhwng aelodau o dîm Ystadegau Addysg Uwch Medr â chysylltiadau data ym mhob PAU, i drafod eitemau fel canfyddiadau archwiliadau blaenorol, gweithrediad parhaus cofnod Myfyrwyr newydd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), ac ansawdd data. Fel rhan o'r broses dros dro hon, bydd Medr yn parhau i ddibynnu ar y sicrwydd blynyddol a roddir i DAUwyr a'u Pwyllgorau Archwilio gan eu harchwilwyr mewnol ynghylch y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflenni data. Bydd dibynnu ar yr archwiliadau mewnol yn cynnal lefel ddigonol o sicrwydd blynyddol o ran ffurflenni data DAUwyr.

4. Bydd yr archwiliad mewnol yn rhoi barn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau'n gysylltiedig â chywirdeb data a gyflwynir gan y DAU i HESA, Medr a Llywodraeth Cymru (LlC), gan gynnwys data a ddefnyddir i gyfrifo'r ffrydiau ariannu canlynol:

    - Cyllid addysgu (sy'n cynnwys cyllid y pen a chyllid premiwm ar hyn o bryd a chyllid israddedigion rhan-amser (RhA) yn seiliedig ar gredydau);
    - Cyllid ymchwil sy'n cynnwys cyllid Ymchwil o Ansawdd (YoA) a chyllid hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd;
    - Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC);
    - Cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser Medr;
    - Cyllid lles ac iechyd meddwl;
    - Cyllid Hil, Mynediad a Llwyddiant;
    - Cyllid cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu;
    - Cronfa Ymchwil, Amgylchedd a Diwylliant Cymru;
    - Cyllid cyfalaf.

    a'r data a ddefnyddir i fonitro'r ffrydiau ariannu canlynol:

    - Cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser Medr;
    - Dyraniadau bwrsariaethau Meistr ar gyfer cyrsiau ôl-radd a addysgir;
    - Dyraniadau'r cynllun Prentisiaethau Gradd a ariennir gan Medr.

5. Dylai'r archwiliad mewnol hefyd roi sicrwydd ynghylch y rheolaethau sydd ar waith i sicrhau cywirdeb y data a ddefnyddir i fonitro perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol fel y Mesurau Cenedlaethol, ac os yw'n berthnasol, data a gynhwysir gan DAUwyr yn rhan o ofynion adrodd cynlluniau ffioedd a mynediad.

6. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i'r archwilwyr mewnol ynghylch natur y rheolaethau y dylid rhoi sylw iddynt wrth archwilio , er mwyn asesu a yw'r systemau a'r prosesau'n ddigonol i ddarparu ffurflenni data cywir a data i'w defnyddio wrth ariannu a monitro, a hefyd i sicrhau bod archwiliadau mewnol sy'n digwydd ar draws y sector yn cael eu cynnal mewn modd cyson.

7. Os yw casgliad cyffredinol yr adroddiad archwilio mewnol, neu'r casgliadau ynghylch digonolrwydd dyluniad y dulliau o reoli a chymhwyso'r rheolaethau hynny, yn rhoi barn negyddol (e.e. sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd o gwbl, rheolaethau anfoddhaol neu annigonol) ac/neu os yw'r adroddiad yn cynnwys nifer sylweddol o argymhellion, dylid hysbysu Medr cyn gynted ag y cytunir ar y farn. Bydd Medr wedyn yn cynnal ei asesiad ei hun o'r mater ac/neu'n comisiynu ei archwiliad allanol ei hun fel bo'n briodol. Byddai'r archwiliad allanol hwn yn ystyried cywirdeb data ar gyfer y cyfnod cyfredol a hefyd yn ystyried canfyddiadau'r archwilydd mewnol ac yn ceisio asesu maint y gwallau posibl yn y ffurflenni data a'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu a monitro mewn cyfnodau blaenorol hyd at yr archwiliad allanol diwethaf. Gall canfyddiadau'r archwiliad allanol hwn arwain at addasiadau i gyllid a gellir cymryd camau pellach os canfyddir nad yw DAUwyr yn cydymffurfio â'u cynlluniau ffioedd a mynediad, y cod ymarfer ar gyfer casglu data ar yr ochr gyflenwi, neu'r cod rheoli ariannol.

**Cwmpas yr Archwiliad**

8. Bydd y ffordd y cynhelir gwaith archwilio mewnol a phrofion ar reolaethau ym mhob DAU yn dibynnu ar y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith a'r modd y rhennir gwybodaeth o fewn y DAU. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y gwaith archwilio mewnol yn cwmpasu'r elfennau a amlygir yn y ddogfen hon. Os canfuwyd mewn gwaith archwilio mewnol blaenorol fod y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith yn foddhaol, efallai y bydd Pwyllgor Archwilio'r DAU yn ystyried ei bod yn briodol trafod meysydd lle ceir risg yn unig mewn archwiliadau dilynol. Yn benodol, oherwydd y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu rhaglen Dyfodol Data HESA yn 2022/23, drwy 2023/24 ac i mewn i gasgliadau 2024/25, byddem yn disgwyl gweld y maes gwaith hwn wedi'i gynnwys o fewn y cwmpas.

9. Cafodd rhaglen Dyfodol Data ei gweithredu ar gyfer cofnod myfyrwyr HESA 2022/23. Bu anawsterau wrth ddychwelyd data yn sgil oedi i ffwythiannau Platfform Data HESA, diweddariadau meddalwedd hwyr, y ffaith bod Jisc wedi cyflwyno rheolau ansawdd data yn hwyr a phroblemau eraill yn ystod y flwyddyn pan roddwyd y rhaglen ar waith. Yng ngoleuni hyn, ar gyfer cwmpas archwiliad 2025, ni wnaethom argymell y dylai archwilwyr archwilio'r broses o weithredu'r cofnod newydd yn fanwl ar gyfer 2022/23, na'r systemau a'r broses yn gysylltiedig â ffurflen 2022/23, ond yn hytrach rhoi barn ar y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau sy'n ymwneud â'r cofnod o hyn allan, gan gynnwys cynlluniau i adolygu a/neu wella prosesau, dogfennau ac ansawdd data wrth symud ymlaen i ffurflen 2023/24.

Profwyd anawsterau hefyd wrth ddychwelyd cofnod myfyrwyr 2023/24, a gallai hyn fod wedi golygu nad oedd darparwyr yn gallu gweithredu prosesau a gweithdrefnau newydd yn llawn ar gyfer eu systemau ar y pryd. Profwyd anawsterau hefyd wrth ddychwelyd cofnod myfyrwyr 2024/25. Fodd bynnag, mae darparwyr bellach yn symud tuag at brosesau mwy sefydlog er mwyn cynhyrchu'r ffurflen. Byddem yn disgwyl i archwilwyr ystyried yr anawsterau hyn yn eu gwaith, ac rydym yn disgwyl i archwilwyr gynnwys yn y cwmpas unrhyw ddiweddariadau a gymhwysir i systemau a phrosesau, ac i gofrestrau risg, ar ôl adolygu ffurflenni data myfyrwyr 2022/23, 2023/24 a 2024/25.

10. Dylai archwilwyr ganfod y prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflenni data a gwybodaeth fonitro a'u cofnodi'n ddigonol fel bo modd cynnal gwerthusiad o ddigonolrwydd y rheolaethau presennol a ddefnyddir gan y DAU i sicrhau eu bod yn cynhyrchu ffurflenni data cywir, ac yn casglu data monitro mewn modd priodol. Mae enghreifftiau o'r rheolaethau y byddai disgwyl i'r archwiliad eu hasesu fel arfer wedi'u nodi ar gyfer yr holl ffrydiau ariannu cyfredol, ffurflenni data a meysydd archwilio eraill yn yr adrannau isod. Mae llawer o'r rheolaethau yn gyffredin i'r ffurflenni data ar gyfer pob maes archwilio. Fodd bynnag, nid yw pob maes archwilio yn berthnasol i bob DAU, a dylai archwilwyr gyfeirio at y paragraffau perthnasol.

11. Dylai archwilwyr nodi bod rhai meysydd lle gallai fod yn rhaid i DAUwyr ddychwelyd amcangyfrifon, lle nad yw'r wybodaeth yn hysbys ar adeg y ffurflen ddychwelyd neu nad yw'r wybodaeth ar gael ar y ffurf ofynnol. Gellir gwneud amcangyfrifon drwy ddefnyddio dulliau a awgrymir gan Medr yn ei ganllawiau, neu os yw'n briodol, gall DAUwyr ddefnyddio eu dulliau eu hunain. Lle gwneir amcangyfrifon, dylai archwilwyr adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w cyfrifo, cadarnhau eu bod wedi'u cofnodi'n briodol, yn rhesymol, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u profi am ddibynadwyedd.

12. Os yw DAU ar ganol uno neu wedi uno'n ddiweddar ag un neu fwy o DAUwyr eraill, dylai'r archwilydd ganfod a oes gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith i integreiddio eu systemau data, neu i sicrhau fel arall fod modd cynhyrchu ffurflenni ar gyfer y DAU cyfun.

13. Wrth gynllunio'r archwiliad, dylai'r Archwilydd ystyried canfyddiadau a chasgliadau unrhyw adroddiadau archwilio allanol ac/neu fewnol sy'n ymwneud â systemau a ffurflenni data ar gyfer y DAU, ac unrhyw adroddiadau a gohebiaeth ddilynol â rheolwyr i asesu'r graddau y mae argymhellion yr adroddiadau wedi'u gweithredu. Disgwylir y bydd yr adroddiadau archwilio yn cyfeirio at ac yn gwneud sylwadau ynghylch y graddau y mae argymhellion a wnaed gan archwilwyr yn yr adroddiadau archwilio mewnol neu allanol blaenorol wedi'u gweithredu'n effeithiol.

14. Yn ogystal, dylid cyfeirio yn yr adroddiad at unrhyw broblemau neu wallau data a gyfeiriwyd yn uniongyrchol i sylw Medr gan y darparydd, neu a gafodd eu nodi a'u cyfleu gan Medr, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd i sicrhau bod systemau a phrosesau data wedi'u diwygio lle bo'n briodol i liniaru unrhyw wallau o'r fath yn y dyfodol. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 9, cafwyd anawsterau wrth weithredu'r rhaglen Dyfodol Data. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle cafodd gwallau lluosog eu fflagio, eu goddef neu eu gadael yn agored yn system rheoli materion cofnod myfyrwyr HESA Nid ydym yn disgwyl i archwilwyr adolygu'r gwallau hyn, ond argymhellwn y dylai unrhyw adolygiad o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer ffurflen

2024/25 ganolbwyntio yn hytrach ar gynlluniau darparwyr i adolygu'r gwallau hyn, ac unrhyw gamau y gallent eu cymryd i wella systemau a phrosesau wrth symud ymlaen i ffurflenni cofnodion myfyrwyr HESA yn y dyfodol.

15. Argymhellir bod staff archwilio mewnol sydd â rhywfaint o brofiad o'r sector AU a ffurflenni data cysylltiedig yn cymryd rhan yn yr ymweliadau â DAUwyr a gynhelir fel rhan o'r adolygiad, a bod archwilwyr yn cael eu briffio'n ddigonol am y canllawiau a geir yn y cyhoeddiad hwn cyn cynnal yr archwiliad. Yn ogystal â hynny, dylai archwilwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r problemau a brofwyd drwy'r DU wrth weithredu Dyfodol Data yn 2022/23 ac unrhyw broblemau a brofwyd gan y darparydd ar gyfer ffurflenni 2023/24 a 2024/25. Gellir cael cyngor ac eglurhad ynghylch y canllawiau yn y cyhoeddiad hwn gan Medr drwy ystadegauAU@medr.cymru, ac mae staff Medr ar gael i gyfarfod â staff archwilio mewnol os oes angen.

16. Mae pob cyhoeddiad CCAUC/Medr a ddisgrifir isod ar gael drwy'r dolenni perthnasol yn y cyhoeddiad hwn, neu gellir eu cael uniongyrchol gan Medr drwy ystadegauAU@medr.cymru.

## Methodoleg Ariannu a Gofynion Data

17. Mae cyhoeddiad Medr Dyraniadau cyllid Medr/2025/06 ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yn disgrifio'r dosbarthiad cyllid cyffredinol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, gan gynnwys:
    - Cyllid Ymchwil Ôl-radd ac Ymchwil o Ansawdd(tudalen 22)
    - CAYC (tudalen 23)
    - Cyllid addysgu (tudalennau 23 i 28)

    Mae Medr/2025/06 hefyd yn cynnwys cyllid a ddisgrifir ymhellach yn y cyhoeddiadau canlynol:

    - Cyllid llesiant ac iechyd meddwl addysg uwch (Medr/2025/30)
    - Cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser
    - Cydraddoldeb hiliol mewn dyraniadau addysg uwch (Medr/2025/13)
    - Cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr (Medr/2025/09)

18. Mae cyhoeddiad Medr Medr/2024/01 Gofynion Data Addysg Uwch 2024/25 (Saesneg yn unig) yn hysbysu darparwyr AU am y data 2023/24 a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau cyllid ac a ddefnyddiwyd i ddibenion monitro, yn ogystal â meini prawf cymhwysedd myfyrwyr ar gyfer:
    - Cyllid y pen (Atodiad A paragraff 18)
    - Premiwm mynediad a chadw (Atodiad A paragraff 21)
    - Premiwm anabledd (Atodiad A paragraff 35)
    - Premiwm cyfrwng Cymraeg (Atodiad A paragraff 37)
    - Premiwm pynciau drud (Atodiad A paragraff 42)
    - Premiwm pynciau cost uwch (Atodiad A paragraff 47)
    - Cyllid ymchwil (Atodiad B)
    - Cyllid hyfforddiant ymchwil ôl-radd (Atodiad C)
    - Cynllun hepgor ffioedd israddedigion rhan-amser Medr (Atodiad G)
    - Cyllid cynllun prentisiaethau gradd a ariennir gan Medr (Atodiad J)
    - Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) (Atodiad L)

- Cyllid cydraddoldeb hiliol a chyllid iechyd a lles (Atodiad M);
- Dyraniadau cymorth cyflogadwyedd wedi'u targedu (Atodiad N);

19. Mae cyhoeddiad Medr Gofynion Data Addysg Uwch Medr/2025/14 2025/26 (Saesneg yn unig) yn hysbysu darparwyr AU am y data a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau cyllid ac a ddefnyddiwyd i ddibenion monitro drwy ddefnyddio data cofnodion myfyrwyr HESA 2024/25.

20. Yn sgil gweithredu Dyfodol Data HESA, dylai archwilwyr nodi'r rhybuddion a gynhwysir ar gyfer data o 2022/23 i 2024/25, yn sgil newid y ffurflen ddata, ym mharagraffau 3 a 4 o Medr/2025/14, a'n disgwyliadau ynghylch archwilio'r systemau a'r prosesau ar gyfer ffurflen ddata myfyrwyr HESA 2024/25 a ddisgrifir ym mharagraffau 9 i 14 y cyhoeddiad hwn.

21. Mae Atodiad A y cyhoeddiad hwn yn cynnwys amlinelliad o'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r elfennau sy'n ddibynnol ar fformiwla o'r cyllid ar sail credydau ar gyfer addysgu, CAYC, hyfforddiant ymchwil ôl-radd ac ymchwil.

22. Mae Atodiad B yn cynnwys y meini prawf ar gyfer cynnwys data yn y dyraniadau o gyllid y pen, premiwm, cyllid hyfforddiant ôl-radd, cyllid cydraddoldeb hiliol, cyllid iechyd a lles a chyllid cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu.

23. Mae Atodiad C yn cynnwys y meini prawf cymhwysedd ar gyfer data a ddefnyddir wrth gyfrifo'r Mesurau Cenedlaethol.

24. Mae Atodiad D yn cynnwys dogfennau a ddarparwyd i DAUwyr er mwyn helpu i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

25. Mae Atodiad E yn cynnwys crynodeb o argymhellion o archwiliadau mewnol blaenorol.

**Cyllid addysgu**

26. Mae cyllid addysgu 2025/26 yn cynnwys:
    - Cyllid a ddyrannwyd drwy'r dull cyllido addysgu yn seiliedig ar gredydau ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser a addysgir;
    - Cyllid y pen ar gyfer darpariaeth amser llawn a rhan-amser a addysgir;
    - Cyllid premiwm pynciau drud ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn;
    - Premiwm pynciau cost uwch ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn;
    - Cyllid premiwm mynediad a chadw myfyrwyr ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser;
    - Premiwm anabledd ar gyfer pob dull a lefel astudio;
    - Premiwm cyfrwng Cymraeg ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser a darpariaeth israddedig amser llawn sy'n gymwys ar gyfer cyllid premiwm pynciau drud neu gyllid premiwm pynciau cost uwch.

27. Roedd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser drwy'r dull ariannu addysgu ar sail credydau ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar ddata gwerth credyd Monitro Ymrestriadau Addysg Uwch Diwedd Blwyddyn 2023/24 a echdynnwyd drwy broses Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd Gwybodaeth (IRIS)

HESA. Mae cyhoeddiad Medr Medr/2024/00 yn manylu ar broses echdynnu a mapio Monitro Diwedd Blwyddyn 2023/24.

28. Fel arfer, cyfrifir addasiadau i gyllid addysgu ar sail credydau drwy ddefnyddio data Monitro Diwedd Blwyddyn a echdynnwyd yn ystod proses IRIS HESA. Mae'r broses addasu ar gyfer 2023/24 wedi digwydd a disgrifir y data a echdynnwyd yng nghylchlythyr Monitro Diwedd Blwyddyn 2023/24 (Medr/2024/00). Disgrifir y data diweddaraf a echdynnwyd yng nghyhoeddiad Monitro Diwedd Blwyddyn 2024/25 Medr/2025/07 er nad yw'r addasiadau ar gyfer 2024/25 wedi'u cyfrifo eto.

29. Wrth brofi'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu ffigurau a ddychwelir o arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch(HESES) a data Monitro Diwedd Blwyddyn ddychwelir o gofnod myfyrwyr HESA ac a echdynnwyd drwy IRIS HESA, dylid anelu i ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw canllawiau diweddaraf Medr yn cael eu defnyddio a'u dilyn, yn benodol, a yw newidiadau o'r arolygon HESES blaenorol wedi'u nodi a'u gweithredu'n briodol?
- A yw data ar y system gofnodion wedi'u dilysu (e.e. cymharu sampl o ffurflenni ymrestru â data ar y system)?
- A yw'r dull o echdynnu data a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflen ar gyfer arolwg HESES wedi'u cofnodi?
- A oes llwybr archwilio digonol i gadarnhau bod y dull o echdynnu data ar gyfer yr arolygon yn cael ei gymhwyso fel y'i cofnodwyd?
- A yw manylion unrhyw welliannau â llaw i ddata a echdynnwyd o'r system ar gyfer arolwg HESES, neu i ddata Monitro Diwedd Blwyddyn a echdynnwyd drwy IRIS HESA, wedi'u cofnodi, gan roi cyfiawnhad ac/neu awdurdodiad priodol ar gyfer y newidiadau?
- A gedwir copi o'r data a gymerwyd o'r system i gynhyrchu'r ffurflen ar gyfer arolwg HESES?
- A yw'r ffurflen derfynol ar gyfer arolwg HESES yn cael ei gwirio yn erbyn data ar y system cyn ei chyflwyno ac a oes tystiolaeth ddigonol o'r broses wirio hon?
- A yw'r data Monitro Diwedd Blwyddyn a echdynnir ac a ddarperir drwy system IRIS HESA yn cael eu gwirio yn erbyn data ar system fewnol y DAU, ac a oes tystiolaeth o'r broses wirio hon cyn cymeradwyo'r gwiriadau data?
- A yw'r gwiriad wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan berson priodol?
- A yw'r adnoddau staff sydd ar gael, gan ystyried profiad ac arbenigedd, yn ddigonol i sicrhau bod ffurflenni arolwg HESES wedi'u paratoi'n fanwl gywir, a bod y data Monitro Diwedd Blwyddyn a echdynnwyd o system IRIS HESA wedi'u gwirio'n drylwyr?
- A yw dogfennau'r system a'r adnoddau staff yn ddigonol i sicrhau y gellir paratoi ffurflenni data cywir, hyd yn oed yn absenoldeb rhai aelodau allweddol o staff?
- A oes cofrestr risg ar waith ac a yw'r risgiau sy'n ymwneud â llunio ffurflenni data cywir, a'r rheolaethau cysylltiedig i reoli'r risgiau hyn, wedi'u hasesu a'u cofnodi'n ddigonol, ynghyd â manylion y camau gweithredu a gynlluniwyd i'w cymryd, lle bo'n berthnasol, i gryfhau'r rheolaethau presennol?

- Lle nodwyd gwallau ar ffurflenni neu gymeradwyaethau HESES/Monitro Diwedd Blwyddyn, gan Medr neu'r DAU, a yw prosesau wedi cael eu gweithredu i fynd i'r afael â'r gwallau data hyn, ac i leihau'r tebygolrwydd o wallau yn y ffurflenni a'r cymeradwyaethau nesaf?
- A oes aelodau staff â phrofiad addas yn craffu ar ffurflenni arolwg HESES, ar wahân i'r rhai sy'n cynhyrchu'r ffurflen, cyn iddynt gael eu cyflwyno?
- A oes aelodau staff â phrofiad addas yn craffu ar ddata Monitro Diwedd Blwyddyn a echdynnwyd yn rhan o system IRIS HESA, ar wahân i'r rhai a gynhyrchodd y ffurflen HESA?
- A gyflwynir adroddiad cryno ar y data a ddychwelwyd i uwch dîm rheoli'r DAU (e.e. cyfanswm y credydau a'r myfyrwyr yn ôl dull a lefel, gyda chymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac/neu ffurflenni eraill)?
- A oes proses addas ar waith i sicrhau bod staff sy'n darparu gwybodaeth (e.e. mewn adrannau) a staff sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn gysylltiedig â chyfnod yr arolwg wedi'i chynnwys yn y ffurflen?
- A oes tystiolaeth bod gwiriadau dilysu a hygrededd yn cael eu cwblhau cyn dychwelyd neu gymeradwyo data (e.e. craffu ar y gwiriadau hygrededd a ddarperir gan Medr ar y taenlenni Excel; cymharu data Monitro Diwedd Blwyddyn/HESES yn erbyn ffurflenni HESES a gynhyrchwyd yn gynharach yn y flwyddyn academaidd neu yn y flwyddyn academaidd flaenorol; defnyddio cyfansymiau rheoli)?
- A yw'r daflen waith Esboniadau yn y llyfr gwaith Monitro Diwedd Blwyddyn wedi'i chwblhau lle bo angen esbonio gwahaniaethau o'r naill flwyddyn i'r nesaf?
- A oes gweithdrefnau er mwyn pennu statws cyllidadwyedd myfyrwyr, ac a wneir gwiriadau o'u statws cyllidadwyedd (e.e. ar gyfer myfyrwyr wedi'u lleoli y tu allan i Gymru); ac a roddwyd cyfrif am y rheolau cyllidadwyedd yn HESES wrth bennu hynny?
- A yw'r dull ar gyfer aseinio codau Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) i fodiwlau ac felly o gategoreiddio credydau yn Gategorïau Pwnc Academaidd (ASCs) wedi'i gofnodi ac yn rhesymol (ar gyfer unrhyw ddata sy'n gysylltiedig â 2019/20 ymlaen)?
- A oes llwybr archwilio digonol i gadarnhau bod y dull o gategoreiddio credydau yn ASCs yn cael ei gymhwyso fel y'i cofnodwyd?
- A yw'r prosesau a ddefnyddir gan ddarparwyr addysg uwch i gyfrifo amcangyfrifon (e.e. cyfraddau methu â chwblhau) yn rhesymol ac wedi'u cofnodi, ac a brofwyd eu dibynadwyedd?
- A yw prosesau'n sicrhau bod tystiolaeth sydd ar gael o ymrestriadau a phresenoldeb yn gyflawn ac yn wedi'i chadw yn rhan o'r llwybr archwilio (e.e. ffurflenni ymrestru, cofnodion ymrestru ar-lein, ffurflenni dewis modiwlau)?
- A yw myfyrwyr mewn darpariaeth freiniol wedi'u nodi'n gywir felly ar y system, a'u cofnodi felly ar y ffurflenni, a heb eu cofnodi fel myfyrwyr dysgu o bell, er enghraifft (lle bo myfyrwyr dysgu o bell yn fyfyrwyr y DAU sy'n adrodd, lle bo staff a gyflogir gan y DAU sy'n adrodd yn gyfrifol am ddarparu'r holl addysgu neu oruchwyliaeth, ond wedi'u lleoli i ffwrdd o'r DAU sy'n adrodd ac nad ydynt yn rhan o drefniant breiniol gyda DAU neu sefydliad arall)?

- A yw trefniadau gyda phartneriaid breiniol wedi'u cofnodi, ac a oes rheolaethau ar waith i sicrhau mai ond y breiniwr sy'n dychwelyd data ar y ddarpariaeth?
- O HESES 2024/25 ymlaen, a yw prentisiaid gradd ar y cynllun prentisiaethau gradd a ariennir gan Medr wedi'u cofnodi'n gywir ar gyfer ymrestriadau a hefyd ar gyfer y gwerthoedd credyd tybiedig a gwblhawyd yn gysylltiedig â hynny.
- Os yw'r DAU wedi'i ffurfio'n ddiweddar wedi i ddau ddarparydd uno, a yw'r systemau data sydd ar waith wedi'u hintegreiddio'n ddigonol i alluogi'r DAU i gynhyrchu ffurflenni ar gyfer y DAU cyfan, a rheoli'r broses o ddilysu a gwirio data?

30. Ar gyfer cyllid 2025/26, mae cyllid y pen a chyllid premiwm yn seiliedig ar ddata a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2023/24 (mae llawlyfrau a chanllawiau codio ar gael ar wefan HESA – www.hesa.ac.uk). Wrth edrych ar y cwestiynau uchod, mewn unrhyw ddadansoddiad o ddata myfyrwyr, disgwylir y byddai unrhyw brofion manwl yn cael eu cynnal ar y systemau a'r prosesau ar gyfer data 2023/24 a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid 2025/26.

31. Ni ddefnyddir data HESES wrth ddyrannu cyllid addysgu 2025/26, ond mae'n ofynnol iddo fonitro cyfraddau recriwtio myfyrwyr a darparu ffigurau recriwtio cynnar i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn ogystal â hynny, o 2025/26 ymlaen, defnyddir data HESES wrth ddyrannu cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer prentisiaid gradd ar y cynllun prentisiaethau gradd a ariennir gan Medr. Bydd y profion yn debyg i'r rhai a gynhelir ar systemau a phrosesau echdynnu data Monitro Diwedd Blwyddyn, fel y'i disgrifir ym mharagraff 29.

## Gofynion Data

32. Manylir ar y meysydd a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i echdynnu data o'r cofnodion ar gyfer cyllid a monitro cyllid 2025/26 yng nghyhoeddiad Gofynion Data Addysg Uwch Medr Medr/2024/01 (Saesneg yn unig). Y data cofnodion myfyrwyr HESA a ddefnyddiwyd yn bennaf ar gyfer cyllid a monitro cyllid 2025/26 yw data 2023/24.

33. Wrth edrych ar gwmpas yr archwiliad, mewn unrhyw ddadansoddiad o ddata myfyrwyr a'r systemau a'r prosesau cysylltiedig, gan gynnwys y profion a awgrymir isod, disgwylir y bydd archwilwyr yn edrych ar gyflwyniad data cofnodion myfyrwyr HESA 2024/25, gan ddefnyddio'r canllawiau a geir ym mharagraffau 9 a 14.

34. Dylai profion ar y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ffurflenni hyn anelu i ateb y cwestiynau canlynol:

**Cofnod Myfyrwyr HESA**:

- A yw'r rheolaethau'n cynnwys gwiriadau ansawdd ar ddata unigol cyn eu cyflwyno i HESA, yn enwedig ar gyfer meysydd data a ddefnyddir ar gyfer ariannu (e.e. gwirio bod codau post cartrefi wedi'u trawsgrifio'n gywir; bod codau HECoS wedi'u haseinio'n gywir; bod y statws cyllidadwyedd yn gywir; bod blwyddyn y myfyriwr yn gywir; a yw'r rhai sy'n derbyn lwfans myfyrwyr anabl wedi'u cofnodi felly)?

- Lle nodwyd gwallau ar ffurflenni blaenorol, gan CCAUC/Medr, HESA neu'r DAU, drwy archwiliad, mewn cyfarfodydd ansawdd data Medr/CCAUC neu fel arall, yn enwedig y rhai a arweiniodd at ostyngiadau mewn cyllid, a yw prosesau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwallau data hyn ac i leihau'r posibilrwydd o wallau ar y ffurflenni nesaf?
- A oes unrhyw faterion a godwyd drwy System Rheoli Materion HESA, gan gynnwys materion sydd wedi'u gadael ar agor, ac unrhyw dargedau cysylltiedig a gymhwyswyd wedi'u coladu a'u hystyried i wneud gwelliannau wrth gyflwyno data yn y dyfodol?
- Lle bo gwallau wedi'u nodi ar ffurflenni blaenorol, a gaiff y data perthnasol eu gwirio cyn cyflwyno'r data yn derfynol i HESA, i gadarnhau nad yw'r gwall wedi digwydd eto?
- A oes tystiolaeth o graffu ar yr adroddiadau gwe ac allbwn IRIS, a gynhyrchir gan system dychwelyd data HESA ar ôl cyflwyno data, a bod sylw'n cael ei roi i unrhyw faterion sy'n deillio o hynny?
- A gynhaliwyd adolygiad o weithrediad Dyfodol Data HESA, ac a oes unrhyw ddiweddariadau i systemau neu brosesau wedi'u gweithredu, ynghyd ag unrhyw newidiadau cysylltiedig i gofrestrau risg?
- A gedwir copi o'r data terfynol a gyflwynir i HESA?
- A yw'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cyfran y modiwl a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gofnodi, yn rhesymol ac yn cael ei gymhwyso'n gyson?
- A wiriwyd unrhyw welliannau â llaw a wnaed gan Medr i eithrio modiwlau cyfrwng Cymraeg er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u heithrio'n gywir?
- A gaiff unrhyw newidiadau a wneir i gynnwys gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, neu ddiwygiadau â llaw i ddata a echdynnir o waith monitro'r cynllun Prentisiaethau Gradd a ariennir gan Medr, eu gwirio i gadarnhau eu bod yn fanwl gywir a bod y cyfansymiau wedi'u haddasu yn gywir?
- A yw unrhyw ddiwygiadau â llaw a wneir gan y darparydd i'r ffurflenni monitro a allbynnir o IRIS ar gyfer hepgor ffioedd rhan-amser a bwrsariaethau Meistr Cyrsiau Ôl-radd a Addysgir yn cael eu cofnodi ac yn destun craffu cyn cael eu cymeradwyo?
- A yw'r adnoddau staff sydd ar gael, ac ystyried profiad ac arbenigedd, yn ddigonol i sicrhau bod y ffurflenni data yn cael eu paratoi'n gywir?
- A yw dogfennau'r system a'r prosesau a'r adnoddau staff yn ddigonol i sicrhau y gellid paratoi ffurflenni data cywir hyd yn oed yn absenoldeb rhai aelodau allweddol o staff?
- A oes cofrestr risg ar waith ac a yw'r risgiau sy'n ymwneud â llunio ffurflenni data cywir, a'r rheolaethau cysylltiedig i reoli'r risgiau hyn, wedi'u hasesu a'u cofnodi'n ddigonol, ynghyd â manylion y camau gweithredu a gynlluniwyd i'w cymryd, lle bo'n berthnasol, i gryfhau'r rheolaethau presennol?
- A yw aelodau profiadol o staff, ar wahân i'r rhai sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn craffu ar ffurflenni cyn iddynt gael eu cyflwyno?
- A gyflwynir adroddiad cryno o'r data a gyflwynwyd i HESA i uwch dîm rheoli'r DAU (e.e. nifer y myfyrwyr yn ôl dull a lefel ac/neu gwrs a phwnc, gyda chymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac/neu ffurflenni eraill)?
- A yw adroddiadau cadarnhau a dilysu Medr yn cael eu gwirio yn erbyn data a gyflwynwyd i HESA er mwyn sicrhau bod adroddiadau Medr yn gywir yn unol â meini prawf Medr?

- Lle bo'r SAB yn breinio darpariaeth, yn ogystal â'i ddarpariaeth a ariennir yn uniongyrchol, a oes rheolaethau ar waith i sicrhau mai ond y sefydliad breinio sy'n dychwelyd data ar y ddarpariaeth i HESA?
- Os yw'r darparydd addysg uwch wedi ffurfio'n ddiweddar yn sgil uno, a yw'r systemau data sydd ar waith yn ddigon integredig i alluogi'r DAU i gynhyrchu ffurflen cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer y DAU cyfan?

**Mesurau Cenedlaethol**

35. Mae'r systemau a'r prosesau a ar gyfer dychwelyd data a ddefnyddiwyd wrth fonitro Mesurau Cenedlaethol ar gyfer 2017/18 ac ymlaen, ar gyfer SAUau, o fewn cwmpas yr archwiliad ar gyfer y set ganlynol o fesurau:
    - Ehangu Mynediad;
    - Cyfranogiad;
    - Cadw;
    - Rhan-amser;
    - Cyfrwng Cymraeg;
    - Symudedd myfyrwyr;
    - Datblygiad Proffesiynol Parhaus;
    - Cyfanswm incwm AU-Rhyngweithio â Busnesau a Chymunedau fesul aelod staff academaidd cyfwerth ag amser llawn (CALl);
    - Gweithgarwch deilliedig;
    - Gweithgarwch dechrau busnes (graddedig);
    - Staff Ymchwil;
    - Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd;
    - Doethuriaethau (PhDs) a ddyfarnwyd;
    - Incwm ymchwil;
    - Myfyrwyr yr UE/Tramor;
    - Staff yr UE / tramor;
    - Addysg drawswladol.

36. Mae is-set o'r Mesurau Cenedlaethol wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad ar gyfer SABau:
    - Ehangu Mynediad;
    - Cyfranogiad;
    - Cadw;
    - Rhan-amser;
    - Cyfrwng Cymraeg.

37. Cafodd y mesurau cyfranogiad a chadw myfyrwyr eu monitro drwy ddefnyddio data a gasglwyd ar gofnod myfyrwyr HESA, a gyfrifwyd ac a gyhoeddwyd gan HESA fel Dangosyddion perfformiad y DU. Fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i gyfrifo DPion y DU yn 2022. Ar gyfer y mesur cyfranogiad, rhoddodd HESA y data inni ar gyfer 2021/22, ac o 2022/23 ymlaen rydym wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio ein methodoleg ein hunain. Er bod gwaith yn parhau i ddatblygu mesur cadw newydd, nid ydym yn gallu diweddau'r mesur hwn ar hyn o bryd, felly'r data diweddaraf a ddefnyddiwyd i'w gyfrifo oedd data 2020/21, pan gyhoeddwyd DPion y DU ddiwethaf.

38. Manylir ar y meysydd a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i echdynnu'r data a ddefnyddiwyd i fonitro'r mesurau hyn yng nghylchlythyr Gofynion Data Addysg

Uwch (cylchlythyr Medr Medr/2024/01) (Saesneg yn unig). Bydd profi systemau a phrosesau a ddefnyddir i ddychwelyd data ar gyfer cyllid yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r profion sy'n briodol ar gyfer data HESA a ddefnyddir wrth fonitro Mesurau Cenedlaethol. Wrth brofi unrhyw gofnod myfyrwyr HESA, dylai archwilwyr nodi'r canllawiau mewn paragraffau blaenorol ynghylch cofnod myfyrwyr HESA 2024/25, yn enwedig ym mharagraffau 13 a 14. Yn ogystal â'r pwyntiau ym mharagraff 34, dylai profion anelu i ateb y cwestiynau canlynol:

**Cofnod Myfyrwyr HESA:**

- A yw'r rheolaethau'n cynnwys gwiriadau ansawdd ar ddata unigol cyn eu cyflwyno i HESA, yn enwedig ar gyfer meysydd data a ddefnyddir wrth fonitro (e.e. gwiriadau bod data ar brofiad symudedd y myfyriwr yn gywir)?
- A oes tystiolaeth, o graffu ar ddata Mesurau Cenedlaethol a echdynnwyd yn allbwn IRIS, a gynhyrchir gan system dychwelyd data HESA ar ôl cyflwyno data, a bod sylw'n cael ei roi i unrhyw faterion sy'n deillio o hynny?

**Arolwg Rhyngweithio Addysg Uwch â Busnesau a Chymunedau (HEBCI):**

- A yw diffiniadau a chanllawiau arolygon HEBCI yn cael eu defnyddio a'u dilyn?
- A yw gwiriadau dilysu a hygrededd yn cael eu cynnal cyn dychwelyd data (e.e. cymariaethau â data'r flwyddyn flaenorol)?
- A yw'r dulliau a'r prosesau a ddefnyddir i gasglu ac echdynnu data wedi'u cofnodi?
- A oes llwybr archwilio digonol i gadarnhau bod dulliau echdynnu data yn cael eu cymhwyso fel y'u cofnodwyd?
- A yw'r adnoddau staff sydd ar gael, ac ystyried profiad ac arbenigedd, yn ddigonol i sicrhau bod y ffurflenni data yn cael eu paratoi'n gywir?
- A yw dogfennau'r systemau a'r prosesau a'r adnoddau staff yn ddigonol i sicrhau y gellid paratoi ffurflenni data hyd yn oed yn absenoldeb rhai aelodau allweddol o staff?
- A oes cofrestr risg ar waith ac a yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â llunio ffurflenni data, a'r rheolaethau cysylltiedig i reoli'r risgiau hynny, wedi'u hasesu a'u cofnodi'n ddigonol ynghyd â manylion y camau gweithredu y bwriedir eu cymryd, lle bo'n berthnasol, i gryfhau'r rheolaethau presennol?
- A yw aelodau profiadol o staff, ar wahân i'r rhai sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn craffu ar ffurflenni cyn iddynt gael eu cyflwyno?
- A gyflwynir adroddiad cryno ar y data a ddychwelir i uwch dîm rheoli'r DAU(e.e. yr eitemau data a ddefnyddir mewn Mesurau Cenedlaethol gyda chymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac/neu ffurflenni eraill)?
- A oes proses addas ar waith i sicrhau bod staff sy'n darparu gwybodaeth (e.e. mewn adrannau) a staff sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn gysylltiedig â chyfnod yr arolwg wedi'i chynnwys yn y ffurflen?
- A yw'r prosesau a ddefnyddir i amcangyfrif yn rhesymol ac wedi'u cofnodi, ac a yw eu dibynadwyedd yn cael ei brofi?

- Os yw'r DAU wedi'i ffurfio'n ddiweddar yn sgil uno, a yw'r systemau sydd ar waith yn ddigon integredig i alluogi'r DAU i gynhyrchu ffurflen Arolwg HEBCI ar gyfer y DAU cyfan?
- A yw'r rheolaethau'n cynnwys cysoni cyfanswm yr incwm a gofnodwyd ar arolwg HE-BCI o ymchwil gydweithredol, ymgynghori, ymchwil drwy gontract, datblygiad proffesiynol parhaus, gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau ac offer, eiddo deallusol ac adfywio a datblygu a ddychwelwyd gyda'r cyfrifon archwiliedig er mwyn sicrhau cysondeb?

**Cofnod cyllid HESA:**

- A yw diffiniadau a chanllawiau yn cael eu defnyddio a'u dilyn?
- A yw gwiriadau dilysu a hygrededd yn cael eu cynnal cyn dychwelyd data (e.e. cymariaethau â data'r flwyddyn flaenorol)?
- A yw'r dulliau a'r prosesau a ddefnyddir i gasglu ac echdynnu data wedi'u cofnodi?
- A oes llwybr archwilio digonol i gadarnhau bod dulliau echdynnu data yn cael eu cymhwyso fel y'u cofnodwyd?
- A gedwir copi o'r data terfynol a gyflwynwyd?
- A yw'r adnoddau staff sydd ar gael, ac ystyried profiad ac arbenigedd, yn ddigonol i sicrhau bod y ffurflenni data yn cael eu paratoi'n gywir?
- A yw dogfennau'r systemau a'r prosesau a'r adnoddau staff yn ddigonol i sicrhau y gellid paratoi ffurflenni data hyd yn oed yn absenoldeb rhai aelodau allweddol o staff?
- A oes cofrestr risg ar waith ac a yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â llunio ffurflenni data, a'r rheolaethau cysylltiedig i reoli'r risgiau hynny, wedi'u hasesu a'u cofnodi'n ddigonol ynghyd â manylion y camau gweithredu y bwriedir eu cymryd, lle bo'n berthnasol, i gryfhau'r rheolaethau presennol?
- A yw aelodau profiadol o staff, ar wahân i'r rhai sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn craffu ar ffurflenni cyn iddynt gael eu cyflwyno?
- A gyflwynir adroddiad cryno ar y data a ddychwelir i uwch dîm rheoli'r DAU(e.e. yr eitemau data a ddefnyddir mewn Mesurau Cenedlaethol gyda chymariaethau â blynyddoedd blaenorol ac/neu ffurflenni eraill)?
- A oes proses addas ar waith i sicrhau bod staff sy'n darparu gwybodaeth (e.e. mewn adrannau) a staff sy'n cynhyrchu'r ffurflen yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn gysylltiedig â chyfnod yr arolwg wedi'i chynnwys yn y ffurflen?
- A yw rheolaethau'n cynnwys cysoni'r gwerthoedd incwm Ymchwil a ddychwelwyd? â'r cyfrifon wedi'u harchwilio er mwyn sicrhau cysondeb?

**Cofnod Staff HESA**

- A yw gwiriadau ansawdd yn cael eu cynnal ar ddata unigol ar gyfer meysydd data a ddefnyddir mewn Mesurau Cenedlaethol (e.e. cenedligrwydd, swyddogaeth cyflogaeth academaidd)?
- Lle nodwyd gwallau ar ffurflenni blaenorol, gan Medr, HESA neu'r DAU, drwy archwiliad neu fel arall, a oes prosesau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwallau data hyn?

- Lle bo gwallau wedi'u nodi o'r blaen mewn data a ddefnyddiwyd mewn Mesurau Cenedlaethol, a gaiff y data eu gwirio cyn cyflwyno data yn derfynol i HESA er mwyn cadarnhau nad yw'r gwall wedi digwydd eto?

**Cofnod Tramor Cyfanredol HESA**

- A gynhelir gwiriadau ansawdd ar ddata nifer staff a ddefnyddir yn y Mesur Cenedlaethol ar gyfer Addysg Drawswladol?

## Cyllid Ymchwil Ôl-radd ac Ymchwil o Ansawdd

39. Ceir rhagor o wybodaeth am y fethodoleg ariannu ar gyfer dyraniad cyllid hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd a dyraniad cyllid Ymchwil o Ansawdd, a ddiwygiwyd yn 2022/23, yng nghylchlythyr CCAUC W22/24HE.

40. Dyrannwyd cyllid hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd ar gyfer 2025/26 drwy ddefnyddio data ar fyfyrwyr CALl cymwys, y gellir eu hariannu yn unedau asesu (UAau) FfRhY 2021 a oedd yn gymwys ar gyfer cyllid Ymchwil o Ansawdd a dynnwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2023/24. Myfyrwyr sy'n gymwys i gael eu cynnwys wrth gyfrifo cyllid ôl-radd yw'r rhai yn unedau asesu (UAau) FfRhY 2021 a oedd wedi'u cynnwys ym model cyllido Ymchwil o Ansawdd ar gyfer 2022/23.

41. Manylir ar y meysydd a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i echdynnu data o'r cofnod ar gyfer cyllid 2025/26 yng nghylchlythyr Gofynion Data Addysg Uwch Medr/2024/01 (Saesneg yn unig). Wrth brofi unrhyw gofnod myfyrwyr HESA, dylai archwilwyr nodi'r canllawiau mewn paragraffau blaenorol ynghylch cofnod myfyrwyr HESA 2024/25, yn enwedig ym mharagraffau 13 a 14. Yn ogystal â'r pwyntiau ym mharagraff 29, dylai profion anelu i ateb y cwestiynau canlynol:

    **Cofnod Myfyrwyr HESA:**

    - A gynhelir gwiriadau ansawdd ar ddata unigol ar gyfer meysydd data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid Ymchwil Ôl-radd (e.e. a yw'r statws cyllidadwyedd yn gywir; yr UAau yn gywir; myfyrwyr CALl yn gywir; a yw'r cod post a'r domisil yn gywir)?
    - A yw adroddiadau cadarnhau Medr yn cael eu gwirio yn erbyn data a gyflwynwyd i HESA i sicrhau bod adroddiadau Medr yn gywir yn ôl meini prawf Medr?
    - Lle nodwyd gwallau ar ffurflenni blaenorol, gan Medr, HESA neu'r DAU, drwy archwiliad neu fel arall, yn enwedig y rhai a arweiniodd at ostyngiadau mewn cyllid Ymchwil Ôl-radd, a yw prosesau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwallau data hyn ac i leihau'r posibilrwydd o wallau ar y ffurflenni nesaf?
    - Lle bo gwallau wedi'u nodi'n flaenorol mewn data Ymchwil Ôl-radd, a gaiff y data Ymchwil Ôl-radd eu gwirio cyn cyflwyno'r data yn derfynol i HESA, i gadarnhau nad yw'r gwall wedi digwydd eto?

42. Yn dilyn gweithredu'r fethodoleg ariannu newydd ar gyfer dyraniadau cyllid Ymchwil o Ansawdd 2022/23, cafodd yr holl ddata a fewnbynnwyd eu rhewi. Felly mae'r data a ddefnyddir i gyfrifo cyllid Ymchwil o Ansawdd 2025/26 yn dal i fod yr un peth â'r data a ddefnyddir i gyfrifo cyllid Ymchwil o Ansawdd 2022/23. Cymerwyd y data a

ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid Ymchwil o Ansawdd 2022/23 o FfRhY 2021, ac o gofnod cyllid HESA 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Nid yw FfRhY 2021 wedi'i gynnwys yng nghwmpas yr archwiliad.

43. Dim ond lle nad ydynt wedi cael eu cynnwys mewn archwiliadau blaenorol y caiff gwiriadau ar y systemau a'r prosesau ar gyfer dychwelyd data sy'n gysylltiedig â'r data cyllid myfyrwyr o'r blynyddoedd penodol a ddefnyddiwyd ar gyfer dyrannu cyllid Ymchwil o Ansawdd. Ystyrir bod hyn yn agwedd sy'n achosi risg. Mae'r cwestiynau y dylai'r gwiriadau hyn anelu i'w hateb wedi'u hamlinellu yn yr adran uchod.

### Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC)

44. Cyfrifir y ffrwd ariannu hon drwy ddefnyddio data o arolwg HEBCI HESA o DAUwyr, ac o'u cofnodion staff, myfyrwyr a chyllid HESA.

45. Ceir hyd i fanylion y broses hon yng nghylchlythyr CCAUC W23/12HE ac mae'r dyraniadau ar gyfer 2025/26 wedi'u hamlinellu yng nghyhoeddiad Medr Medr/2025/06. Dylai profion anelu i ateb y cwestiynau canlynol (yn ogystal â'r rhai a restrir ar gyfer ffrydiau ariannu eraill uchod):

**Cofnod Myfyrwyr HESA (Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn unig)**:

- A yw'r rheolaethau'n cynnwys gwiriadau ansawdd ar ddata cyn eu cyflwyno, yn enwedig ar gyfer y meysydd data a ddefnyddir ar gyfer CAYC (e.e. bod CALl myfyrwyr yn cael ei ddychwelyd yn gywir)?

**Arolwg Rhyngweithio Addysg Uwch â Busnesau a Chymunedau (HEBCI):**

- Gweler y cwestiynau HEBCI ym mharagraff 38
- A yw'r gwerthoedd HEBCI a gymeradwywyd wrth ddilysu CAYC yn aml yn wahanol i'r gwerthoedd hynny a gyflwynwyd i HESA?

**Cofnod cyllid HESA:**

- Gweler cwestiynau am gofnod cyllid HESA ym mharagraff 38

**Cofnod Staff HESA**

- A yw gwiriadau ansawdd yn cael eu cynnal ar ddata yn y meysydd data a ddefnyddir ar y ffurflen hon (e.e. bod Staff CALl wedi'u nodi'n gywir)?

### Data a ddychwelwyd ar gynlluniau ffioedd a mynediad a ffurflenni monitro cynlluniau ffioedd a mynediad

46. Cyflwynwyd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a oedd yn cynnwys dwy flynedd yn 2024. Roedd y cynlluniau cymeradwy yn cwmpasu'r blynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.

47. Dychwelwyd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn unol â chanllawiau yng nghylchlythyr CCAUC Canllawiau Cynllun Ffioedd a Mynediad W24/07HE. Roedd y data a oedd yn ofynnol ar gyfer cyflwyniadau SAU wedi'u cyfyngu i gyfanswm y

myfyrwyr y rhagwelwyd y byddent yn astudio ym mhob un o leoliadau astudio'r sefydliadau. Ceir hyd i ganllawiau manwl ar gyfer hyn ym mharagraffau 157 i 165 yng nghylchlythyr CCAUC W22/19HE. Yn ogystal â hyn, roedd yn ofynnol i SABau gyflwyno gwybodaeth am gyfanswm yr incwm ffioedd i'w dderbyn a gwybodaeth ariannol. Ceir hyd i ganllawiau ar gyfer hyn yn W22/19HE ym mharagraffau 155-156 a 166-173 yn y drefn honno.

48. Gwahoddwyd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau am amrywiadau i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ym mis Mawrth 2024 yn wedi i Lywodraeth Cymru godi terfynau ffioedd dysgu ym mis Chwefror. Fel rhan o'r broses honno, roedd yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno fersiwn gyda newidiadau wedi'u holrhain i'w Cynllun gwreiddiol, ochr yn ochr â ffurflen gais am amrywiad. Wrth gyflwyno'r amrywiad, roedd cyrff llywodraethu'r sefydliadau hynny yn cadarnhau'r canlynol:

   i) eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CMA ac wedi derbyn cyngor cyfreithiol priodol;
   ii) eu bod wedi ymgynghori â myfyrwyr ar yr amrywiad;
   iii) eu bod wedi cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr yn y broses gymeradwyo;
   iv) y byddent yn parhau i fuddsoddi eu cyfran gytunedig o incwm ffioedd dysgu heb unrhyw ostyngiad i gyfran y buddsoddiad ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal; ac
   v) eu bod wedi cynnwys darparwyr partner lle bo lefelau ffioedd yn cael eu hamrywio mewn cyrsiau a ddarperir drwy drefniadau breinio.

   Cymeradwywyd saith amrywiad gan CCAUC ym mis Gorffennaf 2024, i alluogi'r sefydliadau hynny i ddiwygio eu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Ar ôl derbyn y gymeradwyaeth hon, cyfarwyddwyd sefydliadau i gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o'u cynllun yn briodol ar eu gwefan.

49. Mae gwaith monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi'i ymgorffori yn y broses ffurflen sicrwydd flynyddol. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau lofnodi'r datganiadau canlynol mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad:

- Nad oes unrhyw ffioedd cwrs rheoleiddiedig wedi bod yn uwch na'r terfynau ffioedd cymwys, fel y'u nodir yng Nghynlluniau Ffioedd a Mynediad 2024/25
- Bod gan y sefydliad sicrwydd mewn perthynas â rheoli'r wybodaeth a ddarperir am ffioedd ar draws pob ffynhonnell gydnabyddedig ar gyfer marchnata'r sefydliad.
- Bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2024/25.
- Y dylai'r sefydliad ddarparu dogfennau i gefnogi cymeradwyo'r Cynllun Ffioedd a Mynediad
- Bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau buddsoddi blaenorol, gan gynnwys cynnal:
    - y rhaniadau rhwng buddsoddi i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch,
    - y buddsoddiad i gefnogi'r bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a'r buddsoddiad cymorth i fyfyrwyr

50. Rhaid cyflwyno'r dogfennau a gynhyrchir yn fewnol sy'n galluogi'r corff llywodraethu i gymeradwyo ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ochr yn ochr â'r ffurflen sicrwydd blynyddol. Mae'r dogfennau hyn yn ein galluogi i ddeall ar ba sail y llwyddodd y corff llywodraethu i gymeradwyo datganiadau'r ffurflen sicrwydd blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn gofyn i sefydliadau gyflwyno dogfennau i ddangos sut maent yn gwerthuso effeithiolrwydd buddsoddiadau er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Dylai archwilwyr ymgyfarwyddo â'r data sydd eu hangen i alluogi'r corff llywodraethu i gymeradwyo'r rhan hon o'r datganiad ac i lywio'r gwerthusiad o effeithiolrwydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Darperir canllawiau i hysbysu sefydliadau yn Atodiad D.

### Data eraill HESA

51. Mae data eraill HESA nad ydynt wedi'u cynnwys yn y paragraffau blaenorol ac sydd hefyd o fewn cwmpas yr archwiliad yn cynnwys data a ddychwelwyd ar gofnod cyllid HESA, cofnod tramor cyfanredol, cofnod Rheoli Ystadau, arolwg HEBCI a data a ddychwelwyd ar gofnod Darganfod Prifysgol HESA.

52. Bydd profion ar y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i ddychwelyd data a ddefnyddir mewn Mesurau Cenedlaethol a chyllid CAYC (gweler yr adrannau perthnasol uchod) yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r profion sy'n briodol ar gyfer data arolwg HEBCI HESA a data cofnod cyllid HESA.

53. Mae set ddata Darganfod Prifysgol yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau. Mae data sy'n gysylltiedig â chyrsiau a data costau llety wedi'u cynnwys yng nghwmpas archwiliad o ddata Darganfod Prifysgol. Dylai profion anelu i ateb y cwestiynau canlynol:
    - A yw cyrsiau cymwys wedi cael eu dychwelyd ar set ddata Darganfod Prifysgol, ac a yw'r data ar gyfer y cyrsiau hynny'n gywir?
    - Lle bo data wedi'u hamcangyfrif, a ddefnyddiwyd sail resymol i amcangyfrif, a chofnodi hynny?

54. Dyrannwyd y ffrydiau ariannu canlynol hefyd:
    - Cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (HERC) 2025-26 (Medr/2025/16).
    - Cyllid Cyfalaf 2025-26 (Medr/2025/18).

    Mae'r archwiliad o systemau a phrosesau a ddefnyddir mewn ffrydiau ariannu eraill yn ddigonol i roi sicrwydd hefyd ar gyfer y ffrydiau ariannu a restrir yn y paragraff hwn.

### Rhaglen Dyfodol Data HESA

55. Rhaglen drawsnewid Jisc ar gyfer casglu data myfyrwyr yw Dyfodol Data. Fe'i gweithredwyd er mwyn casglu cofnodion myfyrwyr HESA 2022/23.

56. Casgliadau blynyddol oedd y casgliadau o 2022/23 i 2024/25 a ddefnyddiai fodel data Dyfodol Data. Bydd casgliad 2025/26 yn parhau i fod yn gasgliad blynyddol.

57. Dylai archwilwyr ymgyfarwyddo â'r rhaglen a'r gofynion ar gyfer y cofnod newydd o 2022/23 ac i mewn i 2024/25. Rydym yn argymell y dylai unrhyw adolygiad o gofnod myfyrwyr HESA 2024/25 ddilyn y canllawiau a ddisgrifir ym mharagraffau 9 i 14, ac ystyried yr anawsterau parhaus y mae rhai darparwyr wedi'u profi wrth ddychwelyd y cofnod. Byddem yn disgwyl i archwilwyr roi barn ar y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r cofnod yn y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau i adolygu ac/neu wella prosesau, dogfennau ac ansawdd data gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o ffurflenni data 2022/23, 2023/24 a 2024/25, gan symud ymlaen i ffurflen ddata 2025/26, hyd yn oed os nad yw'r prosesau neu'r cynlluniau hynny ar waith eto.

58. Dylai profion anelu i ateb y cwestiynau canlynol:
- A oedd gan y DAU ddigon o adnoddau, o ran cyllid a staff â sgiliau addas, i gynhyrchu ffurflen 2024/25?
- A oedd uwch reolwyr yn ymwybodol o unrhyw broblemau yr oedd eu darparydd wedi dod ar eu traws ar ffurflen 2024/25?
- A oes cynllun ar waith i adolygu unrhyw broblemau ansawdd data, targedau a osodwyd yn sgil ymholiadau IMS, neu i roi ar waith unrhyw wersi a ddysgwyd o ffurflenni rhwng 2022/23 a 2024/25, er mwyn gwella ffurflenni yn y dyfodol?

**Dehongli a Chanllawiau**

59. Dylai archwilwyr ymgyfarwyddo â'r canllawiau diweddaraf, ar adeg yr archwiliad, ar gyfer HESES, Monitro Diwedd Blwyddyn, HESA (gan gynnwys ar gyfer arolwg a chofnod cyllid HEBCI), cylchlythyr gofynion data a, lle bo modd, y broses a'r canllawiau ar gyfer y cynllun ffioedd a mynediad. Efallai y bydd rhai o'r cyhoeddiadau'n cael eu diweddaru ar ôl cyhoeddi'r cyhoeddiad hwn, a dylai archwilwyr roi sylw arbennig i unrhyw newidiadau a wneir i'r data a gasglwyd sy'n awgrymu newidiadau i'r modd y mae systemau a phrosesau'n gweithio ac asesu a yw DAUwyr wedi gwneud neu'n bwriadu gwneud addasiadau priodol.

60. Gellir cael unrhyw eglurhad pellach ynghylch y canllawiau ar gyfer cynhyrchu ffurflenni HESES, Monitro Diwedd Blwyddyn, HESA neu echdynnu data Monitro Diwedd Blwyddyn o gofnod myfyrwyr HESA drwy system IRIS, neu ynghylch canllawiau Medr ar Gynlluniau Ffioedd a Mynediad drwy ystadegauAU@medr.cymru.

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru

61. Mae gan Medr gyfrifoldeb dros rywfaint o gyllid sy'n ymwneud ag addysgu a CAYC yn y Brifysgol Agored yng Nghymru. Cyfrifir cyllid addysgu a CAYC a ddyrennir i'r Brifysgol Agored yng Nghymru drwy ddefnyddio'r un fethodoleg ariannu â SAUau eraill. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu ffurflenni data i HESA a Medr a ddefnyddir i gyfrifo cyllid addysgu a CAYC wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad mewnol. Yn ogystal â hynny, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys yn y Mesurau Cenedlaethol, ac felly mae'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer monitro'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad. Ar hyn o bryd nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn derbyn cyllid Ymchwil Ôl-radd nac Ymchwil o Ansawdd gan Medr, a chan nad yw'r Brifysgol Agored yn sefydliad a reoleiddir gan Medr, nid yw'n cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad.

## Adrodd

62. Dylai'r cynllun archwilio mewnol blynyddol gynnwys adolygiad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ffurflenni data manwl gywir a, lle bo'n briodol, data a ddychwelir ac a ddefnyddir i fonitro'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

63. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys asesiad o ddigonolrwydd y rheolaethau a gofnodwyd ym mharagraffau 29 i 58 uchod fel bônt yn berthnasol. Fodd bynnag, bydd union gwmpas y gwaith archwilio mewnol a gwblheir yn cael ei bennu ar sail asesiad pob DAU o'r risgiau'n gysylltiedig âi' ffurflen ddata DAU, a disgwylir y bydd y gwaith archwilio mewnol yn canolbwyntio ar agweddau risg uwch y systemau a'r prosesau, er enghraifft, materion a nodwyd mewn archwiliadau blaenorol, neu agweddau na chafodd eu cynnwys mewn archwiliadau blaenorol. Disgwylir y byddai'r cwmpas yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu wallau data a ganfuwyd gan y DAU neu CCAUC/Medr o ran prosesau sydd ar waith i gywiro'r gwallau ac i liniaru unrhyw wallau yn y dyfodol. Wrth asesu'r risgiau, byddem yn disgwyl i ffurflen cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2024/25 fod yn agwedd sy'n peri risg. Fodd bynnag, dylai darparwyr ystyried y canllawiau a roddir ym mharagraffau 9 i 14 mewn perthynas â chofnod 2024/25 wrth bennu cwmpas y gwaith archwilio.

64. Dylid amseru'r gwaith archwilio mewnol fel bo modd cwblhau'r adroddiad archwilio mewnol a'i gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r DAU cyn i gopi o'r adroddiad gael ei anfon gan y DAU at i Medr erbyn **10 Gorffennaf 2026**.

65. Os nad yw cynllun archwilio mewnol y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys rhyw lawer o waith am systemau a phrosesau data, oherwydd canfyddiad o risg isel yn y maes hwn, dylai cynrychiolydd o'r sefydliad gysylltu â Medr i'n hysbysu pam bod y maes hwn yn cael ei ystyried yn risg isel, a sut y gellir cael sicrwydd blynyddol yn yr amgylchiadau hyn. Yn yr achos hwn, dylai'r cynrychiolydd gysylltu â Medr ar yr adeg pan fydd ei Bwyllgor Archwilio yn cwblhau ei gynllun archwilio'n derfynol. Yn yr un modd, os oes unrhyw newidiadau i natur gylchol y cynllun neu amseriad pwyllgorau sy'n golygu na fydd adroddiad archwilio ar gael erbyn y dyddiad cau o **10 Gorffennaf 2026,** dylai cynrychiolydd gysylltu â Medr i drafod.

66. Dylai'r adroddiad archwilio mewnol gynnwys:

- Disgrifiad o amcanion yr archwiliad a'r risgiau a'r rheolaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr archwiliad;
- Manylion y gwaith archwilio a gwblhawyd;
- Manylion am faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a'r argymhellion a wnaed i fynd i'r afael â'r rhain;
- Manylion y prosesau a roddwyd ar waith i gywiro'r gwallau ac i leihau unrhyw wallau yn y dyfodol neu unrhyw broblemau data neu wallau a ganfuwyd gan y DAU neu CCAUC/Medr;
- Ystyriaeth o'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau archwilio blaenorol a'r graddau y mae'r rhain wedi'u gweithredu'n effeithiol;
- Ymatebion y rheolwyr i argymhellion yr adroddiad a'r graddfeydd amser y cytunwyd arnynt i'w gweithredu;
- Manylion unrhyw anghytundebau neu argymhellion na chafodd eu derbyn gan y rheolwyr;
- Casgliad clir a barn gyffredinol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chywirdeb y ffurflenni data sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr archwiliad.

67. Os yw casgliad cyffredinol yr adroddiad archwilio mewnol, neu'r casgliadau ynghylch digonolrwydd dyluniad y system ar gyfer rheoli a chymhwyso'r rheolaethau hynny, yn rhoi barn negyddol (e.e. sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd o gwbl, rheolaethau anfoddhaol neu annigonol), dylid cynnwys manylion am eithriadau o bwys sy'n achosi'r farn hon yn yr adroddiad. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid hysbysu Pwyllgor Archwilio'r DAU a Medr am y materion perthnasol cyn gynted â phosibl.

68. Dylai Pwyllgor Archwilio’r DAU gynnwys cyfeiriad yn ei adroddiad blynyddol at yr adroddiadau a’r sicrwydd y mae wedi’u derbyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â’r rheolaethau sydd ar waith i reoli ansawdd y ffurflenni data a gynhyrchwyd gan y DAU i ddibenion ariannu neu fonitro a’r rheolaethau sy’n gysylltiedig â data a ddychwelir ac a ddefnyddir i fonitro’r cynlluniau ffioedd a mynediad.

69. Dylai'r **DAU** anfon copi electronig o'r adroddiad archwilio ac unrhyw ohebiaeth gysylltiedig i ystadegauAU@medr.cymru erbyn **10 Gorffennaf 2026** ar yr hwyraf. Noder nad oes angen anfon copi papur atom.

70. Dylid cadw manylion y gwaith archwilio mewnol a'r adroddiadau a gwblhawyd ers yr archwiliad allanol diwethaf o ddata addysg uwch ac, os oes angen, eu darparu i unrhyw archwilwyr allanol ar gyfarwyddyd Medr. Efallai y bydd y tîm sicrwydd yn Medr hefyd yn dymuno adolygu'r adroddiadau hyn a phapurau cysylltiedig yn ystod ei ymweliadau cyfnodol â'r DAU.

### Rhagor o Wybodaeth

71. Mae canllawiau a gwybodaeth bellach ar gael gan Rachael Clifford neu Hannah Falvey (ystadegauAU@medr.cymru).

## Cyllid Cylchol Medr

Mae'r fethodoleg ar gyfer echdynnu'r data a ddisgrifir isod ar gael yn fanylach yn y cylchlythyrau gofynion data (gweler paragraffau 18 i 19 o brif ran y cyhoeddiad hwn).

### Cyllid ar gyfer Addysgu 2025/26

1 Ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, dyrennir cyllid addysgu yn seiliedig ar gredydau. Mae taliadau fesul pen a phremiymau ar gyfer mynediad a chadw a darpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd wedi'u dyrannu ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser. Ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a TAR, dyrennir cyllid drwy daliadau fesul pen, y premiwm pynciau drud, y premiwm pynciau cost uwch, a'r premiwm cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ran-amser ac amser llawn, dyrennir cyllid drwy'r taliadau fesul pen. Yn ogystal â hyn, mae'r premiwm anabledd yn cael ei ddyrannu ar gyfer pob dull mynychu a lefel astudio, gan gynnwys ymchwil ôl-radd. Disgrifir y dyraniadau cyllid hyn yn fanylach isod.

2 Mae'r dull ar sail credydau a ariennir ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser yn seiliedig ar Uned Gyllido safonol ar gyfer pob maes pwnc. Dyrennir y cyllid hwn drwy fformiwla. Mae gwerthoedd credyd a ariennir sy'n gysylltiedig â chyllid craidd yn seiliedig ar nifer y gwerthoedd credyd y gellir eu hariannu ar ôl addasu ar gyfer niferoedd heb gwblhau, wedi'u tynnu o'r data diwedd blwyddyn diweddaraf sydd ar gael, a nifer y gwerthoedd credyd a ariannwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Caiff niferoedd craidd ym mhob DAU eu cynyddu i'r eithaf drwy wneud addasiadau hyd y bo modd yn unol â phatrwm ymrestru yn y data diwedd blwyddyn. Ar gyfer cyfrifiadau cyllido 2025/26, defnyddiwyd data Monitro Diwedd Blwyddyn 2023/24 a echdynnwyd drwy broses IRIS. Er mwyn cyfrifo unedau cyllido, caiff unedau cyllido'r flwyddyn flaenorol eu haddasu yn ôl enillion effeithlonrwydd a'u cynyddu yn ôl CMC, ar yr amod bod cyllid ar gael.

3 Gwnaeth Medr ddau fath arall o daliad ar gyfer darpariaeth israddedig drwy daliadau fesul pen a thaliadau premiwm. Mae darpariaeth ôl-radd a addysgir yn derbyn taliadau fesul pen a phremiwm anabledd. Mae pob un yn seiliedig ar nifer yr ymrestriadau neu'r credydau a enillwyd yn y flwyddyn flaenorol. Rhoddir manylion y meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn Atodiad B.

4 Mae taliadau fesul pen yn cydnabod y costau sefydlog sy'n gysylltiedig â phob myfyriwr, sef ymrestru, cofnodion ac ati. Dyrennir swm fesul ymrestriad gan fyfyrwyr ar gwrs gradd neu gwrs ôl-radd a addysgir, yn amodol ar ofyniad i astudio isafswm o 10 gwerth credyd.

5 Mae taliadau premiwm sy'n seiliedig ar ddata HESA yn gweithredu mewn pum maes: mynediad a chadw, anabledd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, pynciau drud a phynciau cost uwch. Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth wedi'u cynnwys wrth gyfrifo pob un, a ddisgrifir yn y paragraffau isod.

6 Yn 2025/26, y premiwm mynediad a chadw oedd swm fesul ymrestriad ar gwrs israddedig rhan-amser gan fyfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel, ynghyd â swm

fesul ymrestriad israddedig gan fyfyrwyr y mae eu cod post cartref wedi'i fapio i gwintelau 1 neu 2 o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, yn amodol ar ofyniad i astudio isafswm o 10 gwerth credyd. Roedd y swm fesul ymrestriad yn dibynnu a oedd y DAU wedi llwyddo i gadw'r myfyriwr a chyfran y myfyrwyr cymwys sy'n hanu o Gymru sydd ar gwrs gradd rhan-amser yn y DAU sy'n dod o ardaloedd MALIC.

7 Y premiwm anabledd yw swm fesul ymrestriad ar gyfer myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, yn amodol ar ofyniad astudio gwerth o leiaf 10 credyd. Gwneir taliadau premiwm anabledd am bob modd a lefel astudio. Pwysoliad o'r cyllid a ddenir gan fodiwlau a ddilynir drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r premiwm cyfrwng Cymraeg ac fe'i dyrennir mewn perthynas â phob darpariaeth israddedig ran-amser a detholiad o ddarpariaeth israddedig amser llawn (lle bo'r ddarpariaeth yn bodloni'r meini prawf i gael ei chynnwys yn y premiwm pynciau drud neu'r premiwm pynciau cost uwch).

8 Dyrennir y premiwm pynciau drud drwy ddefnyddio data sy'n gysylltiedig â myfyrwyr israddedig amser llawn yn unig. Swm fesul credyd a gwblheir yw'r premiwm, ac fe'i dyrennir drwy ddefnyddio nifer y credydau a gwblheir mewn deintyddiaeth/meddygaeth glinigol, a'r ddarpariaeth elfen berfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

9 Dyrennir y premiwm pynciau cost uwch drwy ddefnyddio data sy'n gysylltiedig â myfyrwyr israddedig amser llawn yn unig, wedi'u hechdynnu o'r data Monitro Diwedd Blwyddyn. Y premiwm yw swm fesul credyd wedi'i gwblhau ac fe'i dyrennir drwy ddefnyddio nifer y credydau wedi'u cwblhau mewn deintyddiaeth/meddygaeth glinigol, gwyddoniaeth a pheirianneg a thechnoleg a'r gwyddorau mathemategol, a TG a phynciau cyfrifiadura, wedi'u tynnu o'r allbwn Monitro Diwedd Blwyddyn.

## Cyllid ar gyfer Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd 2025/26

10 Cyfrifwyd cyllid hyfforddiant ymchwil ôl-radd 2025/26 drwy ddefnyddio ffigurau myfyrwyr ymchwil CALI a gadarnhawyd gan y DAU o 2023/24. Cyfrifir grantiau i DAUwyr ar sail pro rata i nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-radd CALI wedi'u pwysoli yn ôl pwnc. Myfyrwyr CALI cymwys yw'r rhai mewn unedau asesu a gyflwynwyd i FfRhY 2021, lle mae gan yr uned asesu 3 neu fwy o aelodau staff Categori A CALI, a lle mae'n bodloni trothwy ansawdd a nifer cyfun, h.y. y rhai sy'n gymwys ar gyfer cyllid Ymchwil o Ansawdd yn 2022/23.

## Cyllid ar gyfer Ymchwil 2025/26

11 Dyrennir cyllid ymchwil o ansawdd i DAUwyr a chanddynt unedau cyllido wedi'u cyflwyno i FfRhY 2021 lle bo'r uned asesu yn cynnwys 3 neu fwy o aelodau staff Categori A CALI ac yn bodloni trothwy ansawdd a nifer cyfun. Roedd cyllid ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar ddata a gymerwyd o FfRhY 2021 a chofnodion cyllid HESA 2018/19, 2019/20 a 2020/21, yr un peth ag ar gyfer cyllid 2022/23, 2023/24 a 2024/25, gan fod data mewnbwn wedi'u rhewi yn 2022/23.

12 Ceir dwy elfen i gyllid Ymchwil o Ansawdd: prif ddyraniad a dyraniad incwm elusennol. Dyrennir y prif ddyraniad drwy rannu'r cyllid sydd ar gael yn gymesur â maint yr ymchwil wedi'i bwysoli o ran ansawdd a phwnc. Defnyddir perthnasedd a gyfrifwyd yn flaenorol rhwng costau ymchwil ar gyfer gwahanol feysydd pwnc. Caiff yr elfen incwm elusennol ei dyrannu ar sail pro rata i'r incwm elusennol cyfartalog a ddyfarnwyd drwy brosesau agored, cystadleuol. Cyfrifir cyfanswm y cyllid fel swm y ddwy elfen, gellir cael hyd i fanylion pellach o dan y pennawd “Cyllid ymchwil” ar ein tudalen we Data a dadansoddi.

## Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer data sy'n seiliedig ar HESA a ddefnyddir ar gyfer cyllid

Ar gyfer yr holl ddata sy'n seiliedig ar fyfyrwyr, dylai myfyrwyr fod yn weithredol o fewn y cyfnod adrodd (1 Awst i 31 Gorffennaf) a heb fod yn fyfyriwr cyfnewid sy'n dod i mewn. Yn ogystal â hynny, dylai myfyrwyr fod yn gymwys i gael eu hariannu gan Medr. Esbonnir y fethodoleg ar gyfer echdynnu'r data a ddisgrifir isod yn fanylach yng nghyhoeddiad Medr Medr/2024/01 Gofynion Data Addysg Uwch, (gweler hefyd baragraffau 18 i 19 ym mhrif ran y cyhoeddiad hwn).

**Meini prawf ar gyfer cynnwys mewn cyllid fesul pen**

- Bod y myfyriwr yn astudio o leiaf 10 gwerth credyd.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar gwrs amser llawn neu ran-amser.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar lefel israddedig neu ôl-raddedig a addysgir.
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio.

**Meini prawf ar gyfer cynnwys yn y premiwm mynediad a chadw**

- Bod cod post cartref y myfyriwr mewn ardal cyfranogiad isel ac/neu gwintel 1 neu 2 MALIC19.
- Bod y myfyriwr yn astudio o leiaf 10 gwerth credyd.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar gwrs rhan-amser.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar lefel israddedig.
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio.

**Meini prawf ar gyfer cynnwys yn y premiwm anabledd**

- Bod y myfyriwr yn derbyn Lwfans Myfyriwr Anabl.
- Bod y myfyriwr yn astudio o leiaf 10 gwerth credyd, neu 8.3% CALI ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar gwrs amser llawn neu ran-amser.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar lefel israddedig, ôl-radd a addysgir neu ymchwil ôl-radd.
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio.

**Meini prawf ar gyfer cynnwys yn y premiwm cyfrwng Cymraeg**

- Myfyriwr sy'n astudio cwrs rhan-amser ar lefel israddedig neu'n astudio cwrs amser llawn ar lefel israddedig sy'n cynnwys credydau sy'n gymwys ar gyfer y premiwm pynciau drud neu'r premiwm pynciau cost uwch.
- Myfyriwr sy'n astudio o leiaf 2 gredyd o fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Caiff y modiwl ei ddechrau yn y flwyddyn academaidd a'i ddychwelyd fel un y gellir ei gyfrif.
- Myfyriwr nad yw'n astudio modiwl iaith neu lenyddiaeth Gymraeg. (onid yw'r modiwl yn rhan o gwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n arwain at SAC).

**Meini prawf ar gyfer cynnwys yn y premiwm pynciau drud**

- Bod y myfyriwr yn astudio ar gwrs amser llawn neu flwyddyn ryngosod.
- Bod y myfyriwr yn astudio ar lefel israddedig.
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio.
- Caiff y modiwl ei ddechrau yn y flwyddyn academaidd a'i ddychwelyd fel un y gellir ei gyfrif.
- Bod y modiwl wedi'i gwblhau.
- Bod modiwlau dyblyg wedi'u heithrio.
- Bod credydau wedi'u categoreiddio yn ôl pwnc, lle bo'r pwnc mewn meddygaeth glinigol/deintyddiaeth neu ddarpariaeth elfen berfformio yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru.
- Bod pob blwyddyn astudio wedi'i chynnwys.

**Premiwm Pynciau Cost Uwch**

- Yn defnyddio cyfanswm y gwerthoedd credyd tybiedig wedi'u cwblhau o Dablau 1a ac 1b ar y ffurflen Monitro Diwedd Blwyddyn.
- Myfyrwyr amser llawn a blwyddyn ryngosod.
- Cyfrifir credydau'r flwyddyn ryngosod fel hanner credydau.
- Caiff credydau yn y Categorïau Pwnc Academaidd canlynol eu cynnwys yn y dyraniad:
    - Meddygaeth Anghlinigol a Deintyddiaeth: CPAau 1a, 1c
    - Gwyddoniaeth a Pheirianneg a Thechnoleg: CPAau 3, 4
    - Y Gwyddorau Mathemategol, Peirianneg , TG a Chyfrifiadura: CPA 6

**Meini prawf cynnwys ar gyfer ariannu hyfforddiant ymchwil ôl-radd**

- Astudio am gymhwyster ymchwil ôl-radd.
- Rhaid i fyfyrwyr CALl fod mewn UAau a gyflwynwyd i FfRhY 2021 lle mae'r UA wedi'i chynnwys wrth gyfrifo cymhwysedd am gyllid Ymchwil o Ansawdd.
- Caiff myfyrwyr sydd yn y cyfnod ysgrifennu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan eu heithrio.

**Meini prawf ar gyfer cynnwys mewn cyllid cydraddoldeb hiliol a chyllid iechyd a lles**

- Myfyrwyr sy'n cael eu cyfrif o fewn poblogaeth ymrestru safonol HESA (ni chymhwysir unrhyw feini prawf cyllidadwyedd);
- Myfyrwyr sy'n astudio drwy bob dull, ar bob lefel ac ym mhob domisil;
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio.

**Meini prawf ar gyfer cynnwys mewn cyllid cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu**

- Myfyrwyr a gyfrifir ym mhoblogaeth ymrestru safonol HESA;
- Myfyrwyr sy'n astudio drwy bob dull, ar bob lefel ac ym mhob domisil;
- Caiff myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon eu heithrio;
- Myfyrwyr sy'n astudio mwy na 50% CALl;

- Caiff myfyrwyr hefyd eu cynnwys yn y categori 'Ehangu Mynediad' os ydynt yn bodloni un o'r meini prawf canlynol:
  - bod ganddynt anabledd, neu
  - eu bod yn dod o grŵp ethnig Du, Asiaidd neu leiafrifol (domisil y DU yn unig), neu
  - eu bod yn ofalwr, neu
  - eu bod yn rhywun sydd wedi gadael gofal, neu
  - eu bod yn dod o ardal o amddifadedd (israddedigion sy'n hanu o Gymru yn unig), neu
  - eu bod yn dod o ardal lle ceir cyfranogiad isel mewn AU (israddedigion sy'n hanu o'r DU yn unig), neu
  - fod ganddynt rieni heb unrhyw gymwysterau AU (israddedigion sy'n hanu o'r DU yn unig).
- Ni fydd pob myfyriwr ond yn cael ei gyfrif unwaith, ni waeth faint o gyrsiau y mae'r myfyriwr yn eu hastudio, neu faint o feini prawf Ehangu Mynediad y bydd yn eu bodloni.

**Cyllid Ymchwil o Ansawdd**

**Cofnod cyllid HESA**

- Incwm elusennol (a ddyfarnwyd drwy broses gystadleuol agored), colofnau 2 (elusennau yn y DU), 9 (elusennau yn yr UE) a 12 (elusennau nad ydynt yn yr UE) o gofnod Cyllid HESA Tabl 4. Yn berthnasol i ddata cofnod cyllid ar gyfer blynyddoedd academaidd 2018/19, 2019/20 a 2020/21 yn unig gan fod data a ddefnyddiwyd mewn cyllid Ymchwil o Ansawdd wedi'u rhewi ar ôl cyflwyno'r fethodoleg cyllido Ymchwil o Ansawdd ddiweddaraf yn 2022/23, fel yr amlinellir ym mharagraff 42.

**Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC)**

Dyrennir cyllid yn seiliedig ar fodel sy'n defnyddio'r data canlynol:

**Cofnod Staff HESA**

- Staff Academaidd CALl (ac eithrio contractau annodweddiadol)

**Cofnod Myfyrwyr HESA (ar gyfer Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn unig)**

- Myfyriwr CALl

**Data HEBCI HESA**

- Ymchwil Gydweithredol: Cyfanswm Incwm
- Ymchwil Contract: Cyfanswm Incwm
- Contractau Ymgynghori: Cyfanswm Incwm
- Cyrsiau DPP ac Addysg Barhaus: Cyfanswm Refeniw
- Cyfleusterau a Gwasanaethau'n gysylltiedig â Chyfarpar Cyfanswm Incwm
- Cyrsiau DPP ac Addysg Barhaus: Cyfanswm Diwrnodiau Dysgwr
- Adfywio a Datblygu: Cyfanswm Incwm (ac eithrio incwm Cyfalaf)
- Eiddo Deallusol: Cyfanswm y refeniw (gan gynnwys gwerthu cyfranddaliadau mewn cwmnïau deilliedig)
- Cwmnïau deilliedig (gyda pheth perchnogaeth gan y DAU, a rhai heb berchnogaeth gan y DAU) Nifer yn dal yn weithredol ac wedi goroesi 3 blynedd

- Cwmnïau wedi'u dechrau gan fyfyrwyr: Nifer yn dal yn weithredol ac wedi goroesi tair blynedd o leiaf

## Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer data a ddefnyddir mewn Mesurau Cenedlaethol

Ar gyfer yr holl ddata sy'n seiliedig ar fyfyrwyr a ddefnyddir ar gyfer monitro (ac eithrio cyfranogiad, cadw myfyrwyr, myfyrwyr ymchwil ôl-radd a Doethuriaethau a ddyfarnwyd), dylai myfyrwyr fod yn weithredol o fewn y cyfnod adrodd, nid yn segur, ar gyfnod sabothol, nac yn ysgrifennu, heb fod yn astudio'n bennaf y tu allan i'r DU, heb adael o fewn pythefnos i'w dyddiad dechrau ac ar gwrs sy'n para mwy na phythefnos, ac ar gyfer yr holl ddangosyddion ar wahân i'r dangosydd tramor, nad ydynt yn fyfyriwr cyfnewid sy'n dod i mewn (poblogaeth ymrestru safonol HESA).

Mae data a ddefnyddir i fonitro'r Mesurau Cenedlaethol sydd o fewn cwmpas yr archwiliad wedi'u tynnu o gofnodion myfyrwyr HESA, cofnodion staff, cofnodion cyllid, cofnodion tramor cyfun a ffurflenni arolwg HEBCI ar gyfer SAUau. Caiff data cofnod Myfyrwyr HESA hefyd eu defnyddio ar gyfer SABau. Mae'r fethodoleg ar gyfer echdynnu'r data a ddisgrifir isod ar gael yn fanylach yn y cylchlythyrau gofynion data. Defnyddir data myfyrwyr, staff ac/neu ddarpariaeth, data HEBCI a data incwm mewn SAUau wrth fonitro'r dangosyddion yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

**Ehangu mynediad - '**Nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o bob oed sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, ac sy'n hanu o:

a) y ddau gwintel isaf

b) y cwintel isaf

yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALIC).'

- Mae cod post y myfyriwr yn god post dilys y gellir ei fapio i Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.
- I gael ei gyfrif yn y rhifiadur, mae cod post y myfyriwr yn y cwintel isaf, neu'r ddau gwintel isaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn MALIC.

**Cyfranogiad - '**Nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o bob oed sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, ac sy'n hanu o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU.'

Ar gyfer data 2022/23 ac ar ôl hynny:

- Myfyrwyr gradd gyntaf israddedig amser llawn neu ran-amser, sy'n hanu o'r DU, a gyfrifir ym mhoblogaeth sesiwn HESA, sy'n dechrau rhwng 12 Mehefin BB ac 11 Mehefin BB+1 a heb adael cyn pen 50 diwrnod ar ôl dechrau
- Pennir a yw myfyriwr yn ifanc neu'n aeddfed yn ôl ei oedran ar 30 Medi yn y flwyddyn academaidd pan ddechreuodd y myfyriwr
- Defnyddir cymwysterau wrth ddechrau'r cwrs i benderfynu a oes gan ymgeiswyr hŷn neu ran-amser brofiad blaenorol o AU
- Ardaloedd cyfranogiad isel yw'r rhai sydd yn yr 20% o ardaloedd sydd â'r cyfranogiad ifanc isaf mewn AU yn ôl POLAR4, a nodwyd drwy ddefnyddio'r maes EntryProfile.PERMADDPOSTCODE ar gofnod myfyrwyr HESA, a hefyd ar gyfer

myfyrwyr amser llawn a rhan-amser, nid oes gan fyfyrwyr unrhyw brofiad blaenorol o AU

lle, er enghraifft yn 2022/23, bydd BB = 2022 ac BB+1 = 2023

- Ar gyfer data 2021/22 a chyn hynny: Cymerir data o ddangosyddion perfformiad arbrofol HESA y DU, Tablau 1b, 2a, a 2b, sy'n deillio o ddata a gasglwyd ar gofnod myfyrwyr HESA.

**Cadw**– 'Cyfran y myfyrwyr israddedig llawn amser mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl y flwyddyn fynediad ar gyfer

a) myfyrwyr sy'n hanu o'r DU;

b) myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALlC

hefyd, cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn fynediad, ar gyfer

c) myfyrwyr sy'n hanu o'r DU;

ch) myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALlC.'

- Cymerir data o ddangosyddion perfformiad HESA y DU, Tabl 3, ar gyfer SAUau ac o ddangosyddion perfformiad arbrofol HESA y DU, Tabl 3, ar gyfer SABau sy'n deillio o ddata a gasglwyd ar gofnod myfyrwyr HESA.
- Mae Mesur (a) yn ymwneud â myfyrwyr israddedig amser llawn sy'n hanu o'r DU a mesur (b) yn ymwneud â myfyrwyr israddedig llawn amser sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALlC. Mae Mesur (c) yn ymwneud â myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n hanu o'r DU ac mae mesur (ch) yn ymwneud â myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALlC.

**Rhan-amser -** a) 'Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd yn gwneud hynny'n rhan-amser'

b) 'ynghyd â'r newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur y sector)'

- Mae'r myfyriwr yn rhan-amser.

**Cyfrwng Cymraeg - '**Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, sy'n dilyn

a) o leiaf 5 credyd

b) o leiaf 40 credyd

o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.'

Ar gyfer 2022/23 ymlaen:

Ar gyfer rhaglenni Ymchwil Ôl-radd yn unig:

- caiff sesiwn cwrs y myfyrwyr ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg
- ac mae cyfran y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy na sero

- amcangyfrifir credydau ar sail llwyth y myfyriwr ar gyfer sesiwn cwrs y myfyrwyr wedi'i luosi â 180 a'i rannu â 100

ar gyfer rhaglenni Ymchwil Ôl-radd gyda modiwlau ac nad ydynt wedi'u cynnwys uchod, plws pob darpariaeth arall

- Dechreuir y modiwl yn y flwyddyn academaidd.
- Myfyrwyr sy'n dilyn rhyw elfen drwy gyfrwng y Gymraeg a nodir lle bo o leiaf un modiwl yn cynnwys canran uwch na sero wedi'i haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wedyn, ar gyfer pob lefel:

- Caiff credydau drwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfrif fel pwyntiau credyd ar gyfer y modiwl neu'r pwyntiau credyd amcangyfrifedig, wedi'u lluosi â'r ganran drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyn 2022/23:

- Dechreuir y modiwl yn y flwyddyn academaidd.
- Myfyrwyr sy'n dilyn rhyw elfen drwy gyfrwng y Gymraeg a nodir lle bo o leiaf un modiwl yn cynnwys canran uwch na sero wedi'i haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Caiff credydau drwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfrif fel pwyntiau credyd ar gyfer y modiwl neu'r pwyntiau credyd amcangyfrifedig, wedi'u lluosi â'r ganran drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Symudedd myfyrwyr -** 'Nifer a chanran y myfyrwyr gradd mewn SAUau yng Nghymru sy'n manteisio ar gyfleoedd i astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor, ymhlith

a) yr holl fyfyrwyr israddedig

b) myfyrwyr israddedig sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC'

- Mae'r myfyriwr ar brofiad symudedd
- I'w gyfrif yn rhifiadur mesur (b), mae cod post y myfyriwr yn nau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is MALIC.

**Datblygiad proffesiynol parhaus** - 'Cyfanswm y diwrnodiau dysgwr a ddarparwyd gan SAUau yng Nghymru ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus, a gofnodwyd yn arolwg HE-BCI.'

- Cyfanswm y diwrnodiau dysgu o gyrsiau DPP/Addysg Barhaus a gyflwynwyd a gymerwyd o ran B, Tabl 2, eitem 3f o arolwg HESA HE-BCI.

**Cyfanswm yr incwm fesul Aelod CALI o Staff Academaidd a gofnodwyd yn yr arolwg HE-BCI** - 'Cyfanswm yr incwm a gofnodwyd yn yr arolwg HE-BCI o ymchwil gydweithredol, ymgynghori, ymchwil seiliedig ar gontract, datblygiad proffesiynol parhaus, gwasanaethau cysylltiedig â chyfleusterau a chyfarpar, eiddo deallusol ac adfywio a datblygu, wedi'i rannu â nifer y staff academaidd CALI.'

- Contractau staff sy'n weithredol yn ystod y flwyddyn academaidd ac eithrio contractau annodweddiadol
- Contractau academaidd
- Mae data HEBCI ar gyfer cyfanswm yr incwm mewn perthynas â'r meysydd canlynol wedi'u cymryd o'r tablau a nodir isod yn rhan B o arolwg HE-BCI ac wedi'u hadio at ei gilydd:

| | Tabl | Eitem |
|---|---|---|
| Ymchwil gydweithredol | 1 | 1e |
| Contract ymchwil | 1 | 2h |
| Ymgynghori | 2 | 1h |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau'n gysylltiedig â Chyfarpar | 2 | 2h |
| Datblygiad proffesiynol parhaus | 2 | 3e |
| Adfywio a datblygu | 3 | 1f |
| Eiddo deallusol | 4 | 3f |

**Gweithgarwch deilliedig -** 'Cwmnïau deilliedig newydd a chwmnïau deilliedig sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf.'

- Cymerir data o ran B o arolwg HE-BCI, Tabl 4, is-bennawd 4a, eitemau i a ii a'u hadio at ei gilydd.

**Gweithgarwch dechrau busnes (graddedig)** - 'Busnesau newydd a busnesau sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf.'

- Cymerir data o ran B o arolwg HE-BCI, tabl 4, is-bennawd 4a, eitem iv.

**Staff Ymchwil** – 'Nifer yr

a) holl ymchwilwyr

b) ymchwilwyr STEMM

c) ymchwilwyr nad ydynt yn ymchwilwyr STEMM'

- Contractau staff sy'n weithredol yn ystod y flwyddyn academaidd ac eithrio contractau annodweddiadol
- Contractau academaidd
- Swyddogaeth cyflogaeth academaidd ymchwil neu ymchwil ac addysgu
- Mae STEMM yn cynnwys canolfannau cost Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth a Deintyddiaeth

**Myfyrwyr Ôl-radd** - 'Cyfanswm y myfyrwyr ymchwil ôl-radd (CALI).'

- Myfyriwr yn weithredol yn ystod y cyfnod adrodd, ddim yn segur, ddim ar gyfnod sabothol, ddim yn astudio y tu allan i'r DU yn bennaf ac ddim yn fyfyriwr cyfnewid sy'n dod i mewn (poblogaeth sesiwn HESA).
- Myfyriwr sy'n astudio am gymhwyster ymchwil ôl-radd

**Doethuriaethau a ddyfarnwyd** - 'Cyfanswm y Doethuriaethau a ddyfarnwyd.'

- Myfyriwr y dyfarnwyd Doethuriaeth iddo.

**Incwm ymchwil -** 'Y newid canrannol blynyddol mewn incwm o

a) gyfanswm yr ymchwil; a

b) Cynghorau Ymchwil

o gymharu â'r ffigur cymharol ar gyfer y DU, ac eithrio 'triongl aur' Rhydychen, Caergrawnt a rhai sefydliadau yn Llundain)'

- Cymerir y data o golofn 1j) Cyfanswm incwm y Cyngor Ymchwil a cholofn 15) Cyfanswm incwm Ymchwil, o Dabl 4 o Gofnod Cyllid HESA.
- Dim ond ar lefel y DU y mae data ar gael ar gyfer y Brifysgol Agored ar gyfer y mesur hwn ac felly ni ellir adrodd ar weithgarwch yng Nghymru.

**Myfyrwyr o'r UE/tramor** - 'Canran y newid blynyddol yn nifer

a) y myfyrwyr sy'n hanu o'r UE (ac eithrio'r DU)

b) y myfyrwyr tramor (ac eithrio'r UE)

sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ynghyd â chanran y newid blynyddol yn nifer y myfyrwyr hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain).'

- Domisil y myfyriwr yw'r UE neu wlad dramor (ac eithrio myfyriwr cyfnewid sy'n dod i mewn).
- Ni chyfrifir Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw fel gwledydd tramor i ddibenion y targed hwn.

**Staff yr UE / tramor** - 'Nifer a chanran y staff academaidd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sydd

a) Yn wladolion yr UE (ac eithrio'r DU)

b) Yn ddinasyddion tramor (ac eithrio'r UE)

ynghyd â'r newid canrannol blynyddol, a'r newid canrannol blynyddol o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.'

- Staff sydd ag un neu fwy o gontractau yn weithredol ar 1 Rhagfyr o fewn y flwyddyn academaidd
- Contractau academaidd
- Cenedligrwydd y staff yn yr UE neu dramor

**Addysg Drawswladol** - 'Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n fyfyrwyr addysg drawswladol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.'

- Myfyrwyr sydd wedi ymrestru gyda phrifysgolion yn y DU neu'n astudio am ddyfarniad ganddynt, ond sy'n astudio dramor heb ddod i'r DU.

- Mae myfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau y tu allan i'r DU ac sy'n dod i barhau â'u hastudiaethau o fewn y DU wedi hynny wedi'u cynnwys hyd at yr adeg pan fyddant yn dod i mewn i'r DU. Bryd hynny bydd angen cofnod unigol llawn ar eu cyfer.

## Dogfennau a ddarparwyd i DAUwyr er mwyn helpu i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Darparwyd y canllawiau canlynol gan CCAUC i sefydliadau i'w helpu i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad:

Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno dogfennau a gynhyrchwyd yn fewnol sy'n galluogi'r corff llywodraethu i gymeradwyo ei ddatganiad sicrwydd blynyddol. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn gofyn i sefydliadau gyflwyno dogfennau i ddangos sut maent yn gwerthuso effeithiolrwydd buddsoddiadau er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Ar ben hynny, gan fod llawer o amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad (a'u cyflawniadau cysylltiedig) yn ymrwymiadau parhaus, mae'r broses fonitro hon yn gyfle i sefydliadau fyfyrio a diweddaru Medr ynghylch cyflawniad yr amcanion hynny, gan ystyried y data a'r cyflawniadau mwyaf cyfredol.

Mae'r dystiolaeth hon yn rhoi sicrwydd inni fod sefydliadau'n cyflawni eu dyletswyddau rheoleiddio a bydd yn llywio ein hymgysylltiad â sefydliadau.

Ceir myfyrdodau gennym isod ar gyflwyniadau blaenorol. Rydym yn disgwyl i sefydliadau ystyried y myfyrdodau hyn wrth gynhyrchu ffurflenni. Ac ystyried amcanion strategol Medr, ac yng nghyd-destun y newid i system reoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru, byddwn yn rhoi ffocws arbennig ar effeithiolrwydd buddsoddiad sefydliadau i gyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Sut mae'r brifysgol yn cyflawni ac yn adeiladu ar ei Datganiad o Fwriad Ymgyrraedd yn Ehangach, gan gyd-fynd â chefnogi a chefnogi'r cyfnod pontio o weithgarwch y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a chefnogi grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach i addysg uwch a thrwyddi.
- Cynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cadw myfyrwyr o grwpiau tangynrychioledig.
- Gwella cyflogadwyedd a chanlyniadau gyrfa myfyrwyr yng Nghymru.

Dyma'r nodweddion yng nghyflwyniadau'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n rhoi sicrwydd arbennig inni:

- Crynodeb clir o ganfyddiadau'r sefydliadau.
- Egluro ymhle yn y strwythur llywodraethu y trafodwyd y dogfennau sylweddol.
- Trosolwg o'r broses a roddodd sicrwydd nad oedd ffioedd yn cael eu codi a oedd yn uwch na'r lefelau cyhoeddedig.
- Trosolwg o'r rheolaeth dros ddarparu gwybodaeth am ffioedd ar draws ffynonellau marchnata cydnabyddedig y sefydliad. Er enghraifft, pa reolaethau sydd ar waith i sicrhau cysondeb rhwng gwybodaeth am y Cynllun Ffioedd a Mynediad a marchnata lefelau ffioedd ar lefel cyfnod/modd astudio ac ar lefel cwrs.
- Tabl yn nodi'r cyllid a wariwyd, gan roi sicrwydd bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau buddsoddi blaenorol.

- Lle bo'n berthnasol, crynodeb o sefyllfaoedd lle newidiwyd gwariant yn gysylltiedig ag ymrwymiadau, gyda sail resymegol.
- Darluniau clir i ddangos sefyllfaoedd lle'r oedd data yn tynnu sylw at dueddiadau cadarnhaol neu negyddol: roeddent yng nghyd-destun targedau cynlluniau Ffioedd a Mynediad, lle bo'n berthnasol, neu Fesurau Cenedlaethol e.e. gan ddefnyddio sgoriau Coch, Ambr a Gwyrdd.
- Amlygu'n benodol i'r corff llywodraethu weithgareddau a nodwyd gan y sefydliad fel rhai sy'n cyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn effeithiol, yn ogystal â sefyllfaoedd lle'r oedd gweithgareddau neu heriau yn aneffeithiol.

Rydym yn disgwyl i bob sefydliad barhau i ddychwelyd gwybodaeth gan nodi'r meysydd hyn yn glir.

Rydym hefyd wedi canfod bod y canlynol yn arbennig o ddefnyddiol ar rai ffurflenni, gan roi sicrwydd pellach a gwell dealltwriaeth o'r modd yr oedd sefydliadau'n asesu eu gwaith:

- Mynegai o gofnodion y dogfennau mewnol a lywiodd y dogfennau a ddarparwyd i'r Cyngor. Mae hyn wedi ein galluogi i ofyn am ragor o wybodaeth er mwyn deall mater penodol yn fanylach.
- Matricsau gwerthuso a gwerthusiadau cryno.
- Adrodd ar gynlluniau i dreialu gweithgareddau a phrosesau newydd sy'n cyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad.
- Er mwyn gwella ffurflenni, rydym yn disgwyl i sefydliadau ddangos tystiolaeth gliriach o'r canlynol yn eu dogfennau:
    - Y camau y mae sefydliad wedi'u nodi i wella effeithiolrwydd ei fuddsoddiad yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Ar hyn o bryd, pan fydd sefydliadau'n nodi meysydd i'w gwella neu heriau, nid ydynt yn tynnu sylw at yr hyn y maent yn mynd i'w wneud neu ei newid o ganlyniad i hynny.
    - Astudiaethau achos lle nodwyd arfer effeithiol mewn sefydliadau.
    - Sut mae asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu defnyddio i lywio cyflawniad amcanion i hyrwyddo cyfle cyfartal.
    - Sut mae cydweithio o fewn Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn cyfrannu at amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

## Argymhellion o archwiliadau blaenorol

Ceir isod grynodeb o'r argymhellion a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd i Medr ym mis Mehefin 2025.

Lle bo argymhelliad yn ymwneud â mwy nag un ffrwd o ddata, mae'r argymhelliad wedi'i gynnwys o dan bob ffrwd berthnasol. Ni chaiff argymhellion yr un peth, neu debyg, a wnaed mewn mwy nag un DAU, ond eu cynnwys unwaith. Ceir hyd i ganfyddiadau ar gyfer archwiliadau blaenorol mewn fersiynau blaenorol o'r nodiadau hyn.

### Dyfodol data HESA a ffurflenni data myfyrwyr

- Dylid adolygu'r adnoddau sydd eu hangen ac sydd ar gael ar gyfer cyflwyniadau data myfyrwyr Dyfodol Data HESA a'r Cofnod Tramor Cyfanredol yn y dyfodol i sicrhau bod digon o sgiliau a staff yn eu lle a gwytnwch i'r dyfodol pan gaiff y newidiadau disgwyliedig eu gweithredu.
- Ystyriwch wydnwch mewn timau fel bo modd cwblhau ffurflenni os bydd lefelau staff yn newid.
- Dylid cynnal adolygiad i sicrhau bod y data o'r ansawdd gorau ar y system cofnodion myfyrwyr fel bod llai o anghysondebau ar yr holl ffurflenni.
- Dylid creu dogfennau gweithdrefn ar gyfer ffurflenni myfyrwyr Dyfodol Data HESA i gefnogi gwydnwch y broses a dangos lle caiff newidiadau i brosesau busnes eu nodi a'u cytuno.
- Y Bwrdd Gweithredol i fonitro cynnydd y prosiect data myfyrwyr Dyfodol Data.
- Dylid ystyried unrhyw effaith ar ffurflenni data cyllid statudol Medr yn ystod unrhyw adolygiad a gwerthusiad.
- Datblygu porth er mwyn i bartneriaid addysg drawswladol uwchlwytho cofnodion sylfaenol myfyrwyr yn uniongyrchol. Myfyrwyr partner addysg drawswladol i gael mynediad i ddiweddaru eu cofnodion.

### Cofnod staff

- Datblygu gweithdrefnau i gwblhau'r Cofnod Staff.
- Yr adran AD i fewnbynnu'r data gofynnol ar y gweithlu sy'n llywio Cofnod Staff HESA i'r system wybodaeth staff pan fydd swydd yn cael ei chreu.
- Dylid sefydlu prosesau i gynyddu cyfradd cwblhau'r dudalen HESA y mae angen i staff ei diweddaru ar eu cofnod, er enghraifft nodynnau atgoffa awtomatig rheolaidd drwy e-bost, nes i'r dudalen gael ei chwblhau, a'r rheolwr llinell i fynd ar drywydd hyn.

### Cynllun Ffioedd a Mynediad

- Dylid cynhyrchu adroddiadau i roi sicrwydd nad yw myfyrwyr wedi gordalu ac na chodwyd gormod o dâl ganddynt i gefnogi'r sicrwydd blynyddol a ddarperir yn adroddiad monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

- Dylid datblygu system er mwyn nodi a gwirio bod y ffi gywir yn cael ei chodi gan fyfyrwyr sy'n cael egwyl o'u hastudiaethau neu sy'n trosglwyddo i gwrs arall.
- Dylid aseinio perchnogaeth dros sicrhau bod ffioedd yn cael eu mewnbynnu'n gywir i'r system cofnodion myfyrwyr a chadw tystiolaeth bod gwiriadau o'r fath wedi'u cynnal.
- Dylid datblygu cofrestr risg ar gyfer y Cynllun Ffioedd a Mynediad ac Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**Cyffredinol/Trawsffiniol**

- Sicrhau bod gweithdrefnau gweithredu safonol digon manwl a chyfredol ar waith ar gyfer pob ffurflen.
- Pwysigrwydd rheoli fersiynau, rolau a chyfrifoldebau, prosesau ar gyfer echdynnu data, gwirio a dilysu cyn cyflwyno gyda'r unigolyn priodol yn cymeradwyo'r data.
- Sicrhau bod llwybrau archwilio digonol yn cael eu cynnal, gan gynnwys manylion methodoleg ar gyfer amcangyfrifon a chyfiawnhad dros unrhyw newidiadau â llaw a wneir, gan gynnwys manylion y staff sy'n gyfrifol am gyfrifiadau a'r sawl sy'n gyfrifol am wirio.
- Dylai aelod o staff ar lefel digon uchel gytuno ar a chymeradwyo pob newid a wneir i ffurflenni cyn eu cyflwyno.
- Gwell cyfathrebu ac ymgynghori â staff sy'n gyfrifol am fewnbynnu data ffynhonnell, i dynnu sylw at bwysigrwydd cofnodi gwybodaeth yn fanwl gywir.
- Dylid ystyried adolygu'r systemau a ddefnyddir i lunio ffurflenni a chwilio am feysydd lle gellid awtomeiddio mwy o agweddau er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a gwella'r broses.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**